


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

**Arolwg o Drefniadau Cymunedol
Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg**

Adroddiad Argymhellion Terfynol

Ebrill 2024

© Hawlfraint CFfDLC 2024

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn ymholiadau@ffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.cffdl.llyw.cymru

RHAGAIR

Mae'r Comisiwn yn falch o gyflwyno'r Adroddiad hwn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, sy'n cynnwys ei argymhellion ynglŷn â threfniadau cymunedol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac mae'n dilyn yr egwyddorion a gynhwysir yn nogfen Cylch Gwaith y Comisiwn.

Mae tegwch wrth wraidd cyfrifoldebau statudol y Comisiwn. Amcan y Comisiwn fu gwneud argymhellion sy'n darparu ar gyfer cymunedau sy'n adlewyrchu hunaniaethau lleol ac yn hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Nod yr argymhellion yw gwella sut mae cymunedau'n cael eu hadlewyrchu yn ogystal â gwella cydraddoldeb etholiadol, lle y bo'n bosibl.

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i Aelodau a Swyddogion Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg am eu cymorth gyda'i waith, i'r Cynghorau Cymuned a Thref am eu cyfraniadau gwerthfawr, ac i bawb a wnaeth gynrychiolaethau drwy gydol y broses.

Beverley Smith

Cadeirydd

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
AROLWG O DREFNIADAU CYMUNEDOL BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

Cynnwys	Tudalen
Pennod 1 Crynodeb o'r Argymhellion Terfynol	5
Pennod 2 Polisi Maint y Cyngor	6
Pennod 3 Yr Argymhellion Terfynol	7
Pennod 4 Ymatebion i'r Adroddiad hwn	136
Pennod 5 Cydnabyddiaethau	137
ATODIAD 1 TREFNIADAU CYMUNEDOL PRESENNOL	
ATODIAD 2 TREFNIADAU CYMUNEDOL ARGYMELLEDIG	
ATODIAD 3 TREFNIADAU ETHOLIADOL ARGYMELLEDIG	

Argraffiad 1^{af} wedi'i brintio ym mis Mehefin 2024

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae'r ddogfen ar hon ar gael yn Saesneg.

Cyfieithwyd y ddogfen hon i'r Gymraeg gan Trosol.


Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

CAERDYDD

CF24 0BL



Rhif Ffôn: (029) 2046 4819

Rhif Ffacs: (029) 2046 4823

E-bost: ymholiadau@ffiniau.cymru

www.cffdl.llyw.cymru

Julie James, AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

Llywodraeth Cymru

Pennod 1. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Mae'r Comisiwn yn argymhell newid i drefniant cymunedau a wardiau cymunedol a ddylai sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor.
2. Mae'r Comisiwn yn argymhell newid i ffiniau 25 o gymunedau ar draws ardal y prif gyngor. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau i drefniadau etholiadol 25 o gymunedau ar draws ardal y prif gyngor.
3. Mae'r Comisiwn wedi argymhell gwneud dim newidiadau i 2 gymuned ar draws ardal y prif gyngor. Mae'r Comisiwn yn fodlon ar ffiniau cymunedol presennol y cymunedau hynny (**Y Rhws a Sain Tathan**). Mae'r Comisiwn yn argymhell bod y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cynnal arolwg adran 31 o drefniadau etholiadol y cymunedau hyn er mwyn iddynt gyd-fynd â pholisi maint y cyngor.
4. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 117 o gynrychiolaethau gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), 19 cyngor Tref a Chymuned, 2 Grŵp Plaid Wleidyddol, 5 Cynghorydd Sir, 2 Sefydliad Cymunedol ac 88 o Aelodau'r Cyhoedd, gan gynnwys ymgyrch lythyru a oedd yn cynnwys 77 o ymatebion. Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau hyn yn ofalus cyn ffurfio ei argymhellion.
5. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 142 o gynrychiolaethau gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), 21 cyngor Tref a Chymuned, 1 Aelod Seneddol, 2 Aelod o'r Senedd, 6 Chynghorydd Sir, 3 Chynghorydd Tref a Chymuned, 4 Grŵp Gwleidyddol, 2 Grŵp Cymunedol a 102 o Aelodau'r Cyhoedd. Cafodd y Comisiwn 3 deiseb hefyd a oedd yn cynnwys 80, 50 a 134 o lofnodion, yn y drefn honno, a 2 ymgyrch ysgrifennu llythyrau yn cynnwys 19 ac 18 ymateb, yn y drefn honno. Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau hyn yn ofalus cyn ffurfio ei argymhellion.
6. Fel y disgrifir yn y ddogfen Gwybodaeth am yr Argymhellion Terfynol, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth wrth lunio cynllun o drefniadau etholiadol. Nid oes modd datrys yr holl faterion hyn, sy'n gwrthdaro weithiau, bob amser. Yng nghynllun argymelledig y Comisiwn, mae wedi rhoi pwyslais ar sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
7. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai creu cymunedau a wardiau cymunedol sy'n gwyro oddi wrth y patrwm sy'n bodoli ar hyn o bryd effeithio ar gysylltiadau presennol rhwng cymunedau.

Pennod 2. POLISI MAINT Y CYNGOR

1. Yn rhan o'r cytundeb i gynnal yr arolwg ar ran yr awdurdod lleol, mae'r Comisiwn yn gofyn i'r awdurdod lleol gyflwyno ei bolisi maint y cyngor i'r Comisiwn.
2. Nid yw'r Polisi Maint y Cyngor yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd mor rhagnodol ag mewn arolygon o fath arall a gynhelir gan y Comisiwn, ac mae'n gweithredu fel canllaw.
3. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg wedi cyflwyno'r canlynol sy'n ffurfio ei Bolisi Maint y Cyngor:
 - Yn gyntaf, ni ddylai cymuned gynnwys llai na 1,000 o etholwyr, yn gyffredinol. Dylid caniatáu eithriadau i'r rheol hon lle y ceir rhesymau cryf wedi'u seilio ar dystiolaeth, ond ni ddylai cymuned gynnwys llai na 150 o etholwyr mewn unrhyw amgylchiadau.
 - Yn ail, dylai pob cymuned sy'n cael ei chreu gael ei chynrychioli gan 7 cynghorydd o leiaf.
 - Yn drydydd, dylai'r gymhareb cynghorwyr i etholwyr ym mhob cymuned ddibynnu ar gategoreiddiad y gymuned.
 - Mewn cymunedau gwledig, sef cymunedau heb ardal ddwys ei phoblogaeth, fe ddylai fod cymhareb o 150 o etholwyr fesul cynghorydd, yn gyffredinol.
 - Mewn cymunedau trefol, sef cymunedau dwys eu poblogaeth, fe ddylai fod cymhareb o 500 o etholwyr fesul cynghorydd, yn gyffredinol.
 - Mewn cymunedau cymysg, sef cymunedau sy'n wledig yn bennaf ond sydd â phoced o boblogaeth ddwys, fe ddylai fod cymhareb o 200 o etholwyr fesul cynghorydd, yn gyffredinol.

Pennod 3. YR ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Disgrifir argymhellion y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob argymhelliad newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:
 - enw(au) yr ardaloedd cymunedol presennol sy'n ffurfio'r cymunedau newydd diwygiedig argymelledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
 - disgrifiad byr o'r trefniadau cymunedol presennol o ran nifer yr etholwyr a threfniadau wardiau (os yw'n berthnasol);
 - dadleuon allweddol a wnaed yn ystod trafodaethau'r Comisiwn;
 - cyfansoddiad y trefniadau cymunedol arfaethedig;
 - tabl sy'n amlinellu'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig, gan gynnwys yr amrywiant o'r gymhareb etholwyr fesul cynghorydd o fewn wardiau pob cymuned;
 - newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor (os yw'n berthnasol); a,
 - map o'r gymuned a/neu'r ward gymunedol argymelledig.

Y BARRI

2. Mae'r trefniadau cyngor tref presennol yn y Barri yn cynnwys 8 ward: Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown, ac Illtud. Mae'r dref yn cynnwys cyfanswm o 40,727 o etholwyr a gynrychiolir gan 22 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Drefol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Baruc	7,044	3
Buttrills	4,601	3
Cadog	7,512	3
Castleland	3,488	2
Court	3,510	3
Dyfan	4,232	2
Gibbonsdown	3,968	3
Illtud	6,372	3
Cyfanswm	40,727	22

Cynrychiolaethau

3. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 6 chynrychiolaeth yn ymwneud â Thref y Barri gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg, Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg, Cyngor Tref y Barri, a 2 o breswylwyr y Barri. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
4. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth yn ymwneud â Thref y Barri gan: VOGCPWG, 2 Aelod o'r Senedd, 1 Cynghorydd Tref, Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg, Plaid Cymru Bro Morgannwg, a 2 o breswylwyr y Barri. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau trefol

5. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 12 o newidiadau i'r ffiniau trefol mewnol presennol, sy'n cynnwys creu ward newydd 'Glannau'r Barri' a throsglwyddo ardaloedd rhwng y wardiau cymunedol canlynol:

- Baruc i Illtud
- Buttrills i Illtud
- Cadog i Court
- Cadog i Court
- Illtud i Ddyfan
- Illtud i Ddyfan
- Buttrills i Ddyfan
- Gibbonsdown i Ddyfan
- Gibbonsdown i Gadog
- Buttrills Lannau'r Barri
- Castleland i Lannau'r Barri
- Baruc i Lannau'r Barri

6. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Baruc i ward Illtud. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd o'r ward ac mae'n effeithio ar 329 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r gogledd o Park Road gael eu cynnwys o fewn ward Illtud ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Baruc yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus, ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r argymhelliad hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 16.
7. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Buttrills i ward Illtud. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-orllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 250 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r gogledd-orllewin o Jenner Road (A4050) gael eu cynnwys o fewn ward Illtud ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Buttrills yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 17.
8. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Cadog i ward Court. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 209 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r de o Gladstone Road (A4055) gael eu cynnwys o fewn ward Court ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Cadog yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 18.
9. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan ychwanegol o ward Cadog i ward Court. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 127 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r gorllewin o Robbins Lane gael eu cynnwys o fewn ward Court ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Cadog yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 19.
10. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Illtud i ward Dyfan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 348 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (VOGCPWG) a Chyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i breswylwyr datblygiad tai Highlight Park gael eu cyfuno o fewn 1 ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig

trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Dyfan yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 20.

11. Yna, mae'r Comisiwn yn argymell trosglwyddo rhan ychwanegol o ward Illtud i ward Dyfan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 135 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r gorllewin o Colcot Road (A4050) ar hyd Glen Mavis Way, Greenbanks Drive a Choleg Caerdydd a'r Fro gael eu cynnwys o fewn ward Dyfan ac mae'n darparu mynediad gwell i'r ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Dyfan yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 21.
12. Mae'r Comisiwn yn argymell trosglwyddo rhan o ward Buttrills i ward Dyfan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 866 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r gogledd o Gladstone Road (A4055) gael eu cynnwys o fewn ward Dyfan ac mae'n darparu mynediad gwell i'r ward yn ogystal â ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n dda rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a wardiau Buttrills a Dyfan yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 22.
13. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell trosglwyddo rhan o ward Gibbonsdown i ward Dyfan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 17 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i nifer fach o breswylwyr i'r gorllewin o Tennyson Road gael eu cynnwys o fewn ward Dyfan ac mae'n darparu mynediad gwell i'r ward. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Dyfan yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Cefnogwyd y Cynnig Drafft gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 23.
14. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn argymell trosglwyddo rhan o ward Gibbonsdown i ward Cadog. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 65 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i breswylwyr Heol Leubren, Cwrt Eirlys a Pencoedtre Lane gael eu cynnwys o fewn ward Cadog ac mae'n darparu mynediad gwell i'r ward. Cafodd y Comisiwn gynnis gan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori a oedd yn cynnig cynnwys y safle datblygu arfaethedig ar gyrion dwyreiniol Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Nid yw'r cynnis hwn yn effeithio ar unrhyw etholwyr ychwanegol. Cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth hefyd a awgrymodd rannu ward Cadog yn ddwy ward drefol lai o faint. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn creu ffin

fwy eglur i breswylwyr ac yn darparu gwelliannau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 24.

15. Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 5, mae'r Comisiwn yn argymhell creu ward newydd Glannau'r Barri, ac er mwyn gwneud hyn mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Buttrills i ward newydd Glannau'r Barri. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 378 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu ar gyfer creu ward newydd sy'n adlewyrchu'r datblygiad yn yr ardal. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Glannau'r Barri yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod creu ward Glannau'r Barri yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus i breswylwyr yr ardal. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 25.
16. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Castleland i ward newydd Glannau'r Barri. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 659 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu ar gyfer creu ward newydd sy'n adlewyrchu'r datblygiad yn yr ardal. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Glannau'r Barri yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynnig hwn i greu ward Glannau'r Barri yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus i breswylwyr yr ardal. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 26.
17. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Baruc i ward newydd Glannau'r Barri. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 2,103 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG a Chyngor Tref y Barri yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu ar gyfer creu ward newydd sy'n adlewyrchu'r datblygiad yn yr ardal. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Tref y Barri a ward Glannau'r Barri yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod creu ward Glannau'r Barri yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus i breswylwyr yr ardal. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 15 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 27.
18. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, bydd 40,727 o etholwyr yn Nhref y Barri o hyd.

Enwau Argymelledig

19. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Waterfront** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg **Glannau'r Barri** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod yr enwau hyn yn cael eu cymhwyso i ward etholiadol newydd y prif gyngor.
20. Mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Baruc** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
21. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Buttrills** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
22. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell cadw'r enw ward gymunedol Saesneg **Cadoc**, a'r enw Cymraeg **Cadog** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.

23. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Castleland** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
24. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Court** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
25. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Dyfan** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
26. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw ward gymunedol Saesneg **Illtyd**, a'r enw Cymraeg **Illtud** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

27. Bydd y trefniadau cyngor tref argymelledig ar gyfer y Barri yn cynnwys 9 ward: Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud a Glannau'r Barri. Argymhellir bod y dref yn cynnwys cyfanswm o 40,727 o etholwyr a gynrychiolir gan 23 o gynghorwyr tref.
28. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor tref a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor tref ar dudalen 13.

Cyngor Tref y Barri (Trefol)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CT)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CT)
Baruc	7,044	3	2,348	27%	4,612	3	1,537	-13%
Buttrills	4,601	3	1,534	-17%	3,107	2	1,554	-12%
Cadog	7,512	3	2,504	35%	7,241	4	1,810	2%
Castleland	3,488	2	1,744	-6%	2,829	2	1,415	-20%
Court	3,510	3	1,170	-37%	3,846	2	1,923	9%
Dyfan	4,232	2	2,116	14%	5,598	3	1,866	5%
Gibbonsdown	3,968	3	1,323	-29%	3,886	2	1,943	10%
Illtud	6,372	3	2,124	15%	6,468	3	2,156	22%
Glannau'r Barri	-	-	-	-	3,140	2	1,570	-11%
	40,727	22			40,727	23		

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Dref y Barri yr hawl i gyngor ag 81 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi argymell ychwanegu 1 aelod yn unig at aelodaeth y cyngor o ganlyniad i'r angen i ddarparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cyngor tref ag 81 o aelodau yn anhylaw ac na fyddai'n adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor


29. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
30. O ganlyniad i'r newidiadau argymelledig i drefniadau wardiau yn y Barri, mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i'r wardiau etholiadol presennol a restrir isod, yn ogystal â chreu ward etholiadol newydd Glannau'r Barri:
- Baruc
 - Buttrills
 - Cadog
 - Castleland
 - Court
 - Dyfan
 - Gibbonsdown
 - Illtud
 - Glannau'r Barri

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

31. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cyngh.	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cyngh.	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Baruc	7,044	3	2,348	21%	4,612	3	1,537	-15%
Buttrills	4,601	2	2,301	19%	3,107	2	1,554	-14%
Cadog	7,512	4	1,878	-3%	7,241	4	1,810	1%
Castleland	3,488	2	1,744	-10%	2,829	2	1,415	-21%
Court	3,510	2	1,755	-9%	3,846	2	1,923	7%
Dyfan	4,232	2	2,116	9%	5,598	3	1,866	4%
Gibbonsdown	3,968	2	1,984	3%	3,886	2	1,943	8%
Illtud	6,372	3	2,124	10%	6,468	3	2,156	20%
Glannau'r Barri	-	-	-	-	3,140	2	1,570	-13%
	40,727	20	1,933		40,727	23	1,800	

Tref y Barri




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Baruc i Illtud




(H) Hawfrant y Goron a hawliau cronfa ddada [2024] OS [100047875]

Ardal Buttrills i Illtud




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Cadog i Court (1)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Cadog i Court (2)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Illtud i Dyfan (1)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Illtud i Dyfan (2)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Buttrills i Dyfan




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Gibbonsdown i Dyfan




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Gibbonsdown i Cadog




(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Buttrills i Glannau'r Barri




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Castleland i Glannau'r Barri



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Baruc i Glannau'r Barri



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

PENARTH

32. Mae'r trefniadau cyngor tref presennol ym Mhenarth yn cynnwys 4 ward: Cornerswell, Plymouth, St Augustine's, a Stanwell. Mae gan y dref gyfanswm o 17,766 o etholwyr a gynrychiolir gan 16 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Drefol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Cornerswell	4,119	4
Plymouth	4,677	4
St Augustine's	5,506	5
Stanwell	3,464	3
Cyfanswm	17,766	16

Cynrychiolaethau

33. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn ymwneud â Thref Penarth gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg, Cyngor Tref Penarth, un o breswylwyr Dinas Powys ac un o breswylwyr Larnog. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
34. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 61 o gynrychiolaethau yn ymwneud â Thref Penarth gan: VOGCPWG, 1 Aelod o'r Senedd, Cyngor Tref Penarth, Cyngor Cymuned Sili a Larnog, 1 Cynghorydd Cymuned, Plaid Cymru Bro Morgannwg, Grŵp Ceidwadwyr Dosbarth Penarth, 2 Grŵp Cymunedol, a 52 o breswylwyr Sili a Larnog. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Cynigion ffiniau wardiau trefol

35. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 6 o newidiadau i ffiniau presennol y dref, sy'n cynnwys creu ward newydd 'Cosmeston' a throsglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Larnog i Cosmeston
 - Plymouth i Cosmeston
 - Plymouth i Stanwell
 - Murch i Cornerswell
 - Murch i Stanwell
 - Murch i Plymouth
36. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Larnog, sydd o fewn Cymuned Sili a Larnog ar hyn o bryd, i ward newydd Cosmeston. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 693 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG, ac fe'i cefnogir gan Gyngor Tref Penarth, yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr i'r de o Brockhill Way, Stanton Way a Whitcliffe Drive gael eu cynnwys yn ward newydd Cosmeston ac i gyfrif am ymestyn Tref Penarth y tu hwnt i'w ffin bresennol, yn ogystal â rhoi ei chynrychiolaeth ei hun i ardal Cosmeston ar y Cyngor Tref. Argymhellir bod Fort Road yn cael ei defnyddio fel ffin ddeheuol ward Cosmeston. Mae'r Comisiwn o'r farn bod creu ward Cosmeston yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus i breswylwyr yr ardal. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Cosmeston. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn erbyn creu ward Cosmeston o fewn Cyngor Tref Penarth. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn nodi bod y cynrychiolaethau a oedd yn erbyn creu'r ward yn ymwneud yn bennaf â chynnydd disgwyledig ond heb ei gadarnhau yng nghyfraddau'r Dreth Gyngor, ac mae'r Comisiwn yn fodlon bod creu ward Cosmeston, sy'n creu ward newydd ag un aelod gan ddefnyddio ardal sy'n ffinio'n uniongyrchol â Thref Penarth, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 33 a 34 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 35.

37. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Plymouth i ward newydd Cosmeston. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de-orllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 0 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG, ac fe'i cefnogir gan Gyngor Tref Penarth, yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r ardal sy'n ffurfio Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston gael ei chynnwys yn ward Cosmeston sydd newydd ei chynnig. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod creu ward Cosmeston yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus i breswylwyr yr ardal. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 33 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 36.
38. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Plymouth i ward Stanwell. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r gogledd o'r ward ac mae'n effeithio ar 24 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref Penarth yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, a argymhellodd uno ardal Tŷ Uchaf o fewn ward Stanwell trwy addasu'r ffin i ddilyn Heol y Brenin ac ymuno â Dinas Road. Mae hyn yn uno ardal Tŷ Uchaf o fewn un ward gymunedol ac yn darparu ffin fwy eglur. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod y cynnig yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus i breswylwyr yr ardal. Gellir gweld yr argymhelliad hwn ar y map ar dudalen 33 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 37.
39. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Murch, sydd o fewn Cymuned Dinas Powys ar hyn o bryd, i ward Cornerswell. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 10 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan un o breswylwyr Sully Road yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr gael eu cynnwys o fewn ardal Cyngor Tref Penarth oherwydd bod ganddynt fynediad mwy eglur ac uniongyrchol i Benarth. Mae'r ardal yr argymhellir ei throsglwyddo gerllaw ward Cornerswell a byddai'n darparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward ac mae'r Comisiwn o'r farn bod gan yr eiddo fynediad mwy uniongyrchol i Benarth. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad yn darparu ffin fwy eglur i breswylwyr yr ardal a bod yr argymhelliad yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld y cynnig ar y map ar dudalen 33 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 38.
40. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Murch, sydd o fewn Cymuned Dinas Powys ar hyn o bryd, i ward Cornerswell. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 38 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan un o breswylwyr Sully Road yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr gael eu cynnwys o fewn ardal Cyngor Tref Penarth oherwydd bod ganddynt fynediad mwy eglur ac uniongyrchol i Benarth. Mae'r ardal yr argymhellir ei throsglwyddo gerllaw ward Stanwell a byddai'n darparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward ac mae'r Comisiwn o'r farn bod gan yr eiddo fynediad mwy uniongyrchol i Benarth. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad yn darparu ffin fwy eglur i breswylwyr yr ardal a bod yr argymhelliad yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld y cynnig ar y map ar dudalen 33 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 39.
41. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Murch, sydd o fewn Cymuned Dinas Powys ar hyn o bryd, i ward Plymouth. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o'r ward ac mae'n effeithio ar 22 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan un o breswylwyr Sully Road yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r preswylwyr gael eu cynnwys o fewn ardal Cyngor Tref Penarth oherwydd bod ganddynt fynediad mwy eglur ac uniongyrchol i Benarth. Mae'r ardal yr argymhellir ei throsglwyddo gerllaw ward Cornerswell a byddai'n darparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well rhwng y 2 ward ac mae'r Comisiwn o'r farn bod gan yr eiddo fynediad mwy uniongyrchol i Benarth. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad yn darparu ffin fwy eglur i breswylwyr yr ardal a bod yr argymhelliad yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld y cynnig ar y map ar dudalen 33 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 40.

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

42. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, bydd nifer yr etholwyr yn Nhref Penarth yn cynyddu i 18,529. Bydd 70 o etholwyr yn trosglwyddo i Benarth o Gymuned Dinas Powys a 693 o etholwyr yn trosglwyddo i Benarth o Gymuned Sili a Larnog.

Enwau Argymelledig

43. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Tref unigol presennol **Penarth** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol argymelledig ar gyfer y Dref.
44. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw ward gymunedol unigol newydd **Cosmeston**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol argymelledig ar gyfer y ward newydd. Mae'r Comisiwn yn argymell bod yr enw hwn yn cael ei gymhwyso i ward etholiadol newydd y prif gyngor hefyd.
45. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Cornerswell** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
46. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Plymouth** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
47. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **Stanwell** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
48. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw ward gymunedol unigol **St Augustine's** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

49. Byddai'r trefniadau cyngor tref argymelledig ym Mhenarth yn cynnwys 5 ward: Cornerswell, Cosmeston, Plymouth, St Augustine's, a Stanwell. Argymhellir bod y dref yn cynnwys cyfanswm o 18,529 o etholwyr a gynrychiolir gan 17 o gynghorwyr tref.
50. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor tref a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor tref isod:

Cyngor Tref Penarth (Trefol)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CT)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CT)
Cornerswell	4,119	4	1,030	-7%	4,129	4	1,032	-5%
Cosmeston	-	-	-	-	693	1	693	-36%
Plymouth	4,677	4	1,169	5%	4,675	4	1,169	7%
St Augustine's	5,506	5	1,101	-1%	5,506	5	1,101	1%
Stanwell	3,464	3	1,155	4%	3,526	3	1,175	8%
	17,766	16	1,110		18,529	17	1,090	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Dref Penarth yr hawl i gyngor â 35 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd bynnag,

Tudalen 30

mae'r Comisiwn wedi argymhell ychwanegu 1 aelod yn unig at aelodaeth y cyngor o ganlyniad i'r angen i ddarparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cyngor tref â 35 o aelodau yn anhylaw ac na fyddai'n adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

Cymuned Sili a Larnog (Cymysg)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorwyr	Amrywiant (CC)
Larnog	790	2	395	-10%	97	1	97	-79%
Sili	3,162	7	452	3%	3,162	6	527	13%
	3,952	9	439		3,259	7	466	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Sili a Larnog yr hawl i gyngor ag 16 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiant ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi argymhell bod y cyngor yn cynnwys 2 aelod yn llai i gyfrif am golli etholwyr i ward argymelledig 'Cosmeston'. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cyngor cymuned ag 16 o aelodau yn anhylaw ac na fyddai'n adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn erbyn creu Cosmeston. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod llawer o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd wedi'u seilio ar newidiadau heb eu cadarnhau i gyfraddau'r Dreth Gyngor, ac y bydd creu ward etholiadol newydd yn y cyngor sir yn gwella'r gynrychiolaeth ddemocrataidd ar gyfer preswylwyr.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

51. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
52. O ganlyniad i'r newidiadau argymelledig i drefniadau wardiau ym Mhenarth, mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i'r wardiau etholiadol presennol a restrir isod, yn ogystal â chreu ward etholiadol newydd Cosmeston:
 - Cornerswell
 - Plymouth
 - Cosmeston
 - Stanwell


ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

53. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:

Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Cornerswell	4,119	2	2,060	7%	4,129	2	2,065	15%
Cosmeston	-	-	-	-	693	1	693	-61%
Plymouth	4,677	2	2,339	21%	4,675	2	2,338	30%
St Augustine's	5,506	3	1,835	-5%	5,506	3	1,835	2%
Stanwell	3,464	2	1,732	-10%	3,526	2	1,763	-2%
	17,766	9	1,933		18,529	10	1,800	


54. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud dim newidiadau i drefniadau ward etholiadol Sili, a fydd yn cadw ei lefel bresennol o gynrychiolaeth cyngor sir.

Tref Penarth




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Cymuned Sili a Larnog




Ardal Larnog i Cosmeston




(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Plymouth i Cosmeston




(H) Hawffruint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Murch i Cornerswell




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Murch i Stanwell




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Murch i Plymouth



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Plymouth i Stanwell



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

LLANILLTUD FAWR

55. Mae'r trefniant cyngor tref presennol yn Llanilltud Fawr yn cynnwys 4 ward: Trebefered, Gogledd, De, De-ddwyrain a Gorllewin. Mae gan y dref gyfanswm o 7,740 o etholwyr a gynrychiolir gan 14 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Drefol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Trebefered	2,331	4
Gogledd	2,801	5
De-ddwyrain	1,547	3
Gorllewin	1,061	2
Cyfanswm	7,740	14

Cynrychiolaethau

56. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â Thref Llanilltud Fawr gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Tref Llanilltud Fawr, a Grŵp Plaid Cymru Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
57. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â thref Llanilltud Fawr gan: VOGCPWG, Aelod o'r Senedd, Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr, Cyngor Cymuned Llan-faes, ac 16 o breswylwyr Llan-faes, a oedd yn cynnwys ymgyrch lythyru â 19 o gyflwyniadau. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau trefol

58. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 2 newid i ffiniau presennol y dref, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Gorllewin i Dde-ddwyrain
 - Llan-faes i Drebefered
59. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo'r ardal o amgylch eiddo Fferm Rosedew o ward y Gorllewin i ward y De-ddwyrain. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 10 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i breswylwyr yr ardal a adwaenir fel 'The Walled Gardens' gael eu cynnwys yn gywir o fewn ward y De-ddwyrain. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 44 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 45.
60. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llan-faes, sydd o fewn Cymuned Llan-faes ar hyn o bryd, i ward Trebefered. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 5 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr, ac fe'i cefnogir gan VOGCPWG, yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r ardal sydd rhwng ward bresennol Trebefered a'r Ffordd Fynediad Ogleddol gael ei chynnwys o fewn ward Trebefered ac i ddarparu ffin fwy eglur rhwng y 2 ardal. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn erbyn ailalinio ffin y Ffordd Fynediad Ogleddol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn defnyddio prif ffordd i ddarparu ffin fwy eglur rhwng yr ardaloedd ac yn cydymffurfio ag elfennau o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a oedd yn gwrthwynebu cyfuno Llan-faes â Llanilltud Fawr mewn unrhyw ffordd. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 44 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 46.

61. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, bydd nifer yr etholwyr yn Nhref Llanilltud Fawr yn cynyddu i 7,745, gyda 5 o etholwyr yn trosglwyddo i Lanilltud Fawr o Gymuned Llan-faes.

Enwau Argymelledig

62. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Llantwit Major** ar gyfer y Dref, a'r enw Cymraeg presennol **Llanilltud Fawr** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
63. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Boverton** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg presennol **Trebefered** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.
64. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **North** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg presennol **Gogledd** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.
65. At hynny, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **South East** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg presennol **De-ddwyrain** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.
66. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **West** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg presennol **Gorllewin** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

67. Byddai'r trefniadau cyngor tref argymelledig yn Llanilltud Fawr yn cynnwys 4 ward: Trebefered, Gogledd, De-ddwyrain, a Gorllewin. Argymhellir bod y dref yn cynnwys cyfanswm o 7,745 o etholwyr a gynrychiolir gan 15 o gynghorwyr tref.
68. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y dref a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor tref isod:

Cyngor Tref Llanilltud Fawr (Cymysg)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CT)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CT)
Trebefered	2,331	4	583	5%	2,336	5	467	-10%
Gogledd	2,801	5	560	1%	2,801	5	560	8%
De-ddwyrain	1,547	3	516	-7%	1,557	3	519	1%
Gorllewin	1,061	2	531	-4%	1,051	2	526	2%
	7,740	14	553		7,745	15	516	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Dref Llanilltud Fawr yr hawl i gyngor â 39 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU


bynag, mae'r Comisiwn wedi argymhell ychwanegu 1 aelod yn unig at aelodaeth y cyngor o ganlyniad i'r angen i ddarparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Argymhellodd Cyngor Tref Llanilltud Fawr ychwanegu un aelod, hefyd. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cyngor tref â 39 o aelodau yn anhylaw ac na fyddai'n adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn erbyn ailalinio ffin y Ffordd Fynediad Ogleddol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn defnyddio prif ffordd i ddarparu ffin fwy eglur rhwng yr ardaloedd ac yn cydymffurfio ag elfennau o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd a oedd yn gwrthwynebu cyfuno Llan-faes â Llanilltud Fawr mewn unrhyw ffordd.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

69. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
70. O ganlyniad i'r newidiadau argymelledig i drefniadau wardiau yn Llanilltud Fawr, a'r newidiadau argymelledig i Gymuned Llan-faes gyda chymuned arall gyndogol ar dudalen 123, mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Llanilltud Fawr yn cael ei ffurfio o Gymuned Llanilltud Fawr.
71. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant
Llanilltud Fawr	8,094	4	2,024	5%	7,745	4	1,936	8%
	8,094	4	1,933		7,745	4	1,800	

Tref Llanilltud Fawr




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Gorllewin i De-ddwyrain



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llan-faes i Drebefered



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Y BONT-FAEN GYDA LLANFLEIDDAN

72. Mae'r trefniadau cyngor tref presennol yn y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn cynnwys 4 ward: Aberthin, y Bont-faen, Dwyrain Llanfleiddan, a Gorllewin Llanfleiddan. Mae gan y dref gyfanswm o 3,746 o etholwyr a gynrychiolir gan 15 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Drefol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Aberthin	370	2
Y Bont-faen	1,190	5
Dwyrain Llanfleiddan	1,053	4
Gorllewin Llanfleiddan	1,133	4
Cyfanswm	3,746	15

Cynrychiolaethau

73. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn ymwneud â Thref y Bont-faen gyda Llanfleiddan gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, Cyngor Cymuned Pen-llin, Cyngor Cymuned Llan-fair, a Chynghorydd Sir ar gyfer ward y Bont-faen. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
74. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth yn ymwneud â Thref y Bont-faen gyda Llanfleiddan gan: VOGCPWG, Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, Cyngor Cymuned Llan-fair, Cyngor Cymuned Pen-llin, a 4 preswylwr. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau trefol

75. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 5 newid i ffiniau presennol y dref, sy'n cynnwys creu wardiau cymunedol newydd ar gyfer Gogledd y Bont-faen, Canol y Bont-faen a Llanfleiddan a throsglwyddo ardaloedd rhwng y wardiau cymunedol canlynol:
- Pen-llin i Ogledd y Bont-faen
 - Gorllewin Llanfleiddan i Ogledd y Bont-faen
 - Gorllewin Llanfleiddan i Ganol y Bont-faen
 - Dwyrain Llanfleiddan i Ganol y Bont-faen
 - Dwyrain Llanfleiddan i Lanfleiddan
76. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo'r ardal a adwaenir fel Fferm Darren o ward Pen-llin, sydd o fewn Cymuned Pen-llin ar hyn o bryd, i ward argymelledig Gogledd y Bont-faen. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd o'r ward ac mae'n effeithio ar 16 o etholwyr. Mae'r Comisiwn yn argymhell ymestyn y ffin fel y'i cynigiwyd yn yr Adroddiad Cynigion Drafft i gynnwys cae cymdogol i'r gorllewin hefyd a fydd yn ffurfio rhan o ddatblygiad arfaethedig Fferm Darren. Cyflwynwyd y cynnig hwn gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan a VOGCPWG yn ystod y cam ymgynghori cychwynnol. Gofynnodd Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan hefyd i'r ffin ogleddol gael ei hymestyn i gynnwys eiddo ar ochr arall yr A48. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr A48 yn darparu ffin eglur ac wedi'i diffinio'n dda a bod yr argymhelliad yn cadw Eglwys Sant Frynach o fewn Pen-llin, fel y gofynnwyd yn flaenorol. Roedd Cyngor Cymuned Pen-llin yn cefnogi'r Cynigion Drafft ar gyfer ei gymuned. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ar yr un pryd â darparu ffin eglur ac wedi'i diffinio'n dda. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 51 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 52.

77. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Gorllewin Llanfleiddan i ward argymelledig Gogledd y Bont-faen. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r ward gymunedol ac mae'n effeithio ar 605 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i ardal ogledd-orllewinol y Bont-faen gael ei chyfuno â Fferm Darren i ffurfio ward newydd ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n dda ar gyfer ardal ogledd-orllewinol y Bont-faen. Cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth gan breswylwr a ofynnodd i ardal Bowman's Way aros yn Llanfleiddan. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ffurfio wardiau ar gyfer Gogledd y Bont-faen a Llanfleiddan. Cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth hefyd gan VOGCPWG yn awgrymu'r enw Gogledd y Bont-faen ar gyfer ward arfaethedig Gogledd-orllewin y Bont-faen. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 51 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 53.
78. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Gorllewin Llanfleiddan i ward argymelledig Canol y Bont-faen. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r dwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 190 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i'r ardal sy'n ffurfio rhan o Dref y Bont-faen gyfuno â ward bresennol y Bont-faen i ffurfio ward argymelledig Canol y Bont-faen ac mae'n darparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n dda ar gyfer ardal canol y Bont-faen. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 51 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 54.
79. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Dwyrain Llanfleiddan i ward argymelledig Canol y Bont-faen. Mae hyn yn golygu trosglwyddo mwyafrif ward bresennol Dwyrain Llanfleiddan ac mae'n effeithio ar 997 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i greu wardiau newydd â ffiniau wedi'u diffinio'n fwy eglur sy'n adlewyrchu'r datblygiadau presennol ac yn y dyfodol yn ardal y cyngor tref. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld y cynnig ar y map ar dudalen 51 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 55.
80. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell bod gweddill wardiau Dwyrain Llanfleiddan a Gorllewin Llanfleiddan yn cael eu cyfuno i ffurfio ward argymelledig Llanfleiddan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo rhan dde-orllewinol ward Dwyrain Llanfleiddan ac mae'n effeithio ar 56 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i greu wardiau newydd â ffiniau wedi'u diffinio'n fwy eglur sy'n adlewyrchu datblygiad ardal y cyngor tref. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 48 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 56.
81. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, bydd nifer yr etholwyr yn Nhref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn cynyddu i 3,762, gydag 16 o etholwyr yn trosglwyddo i'r Bont-faen gyda Llanfleiddan o Gymuned Pen-llin.

Enwau Argymelledig

82. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg **Cowbridge with Llanblethian** ar gyfer y gymuned a'r enw Cymraeg **Y Bont-faen gyda Llanfleiddan** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
83. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Cowbridge North** ar gyfer y ward gymunedol, fel yr argymhellwyd gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan a Gweithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg, a'r enw Cymraeg **Gogledd y Bont-faen** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

84. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Cowbridge Central** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Canol y Bont-faen** fel yr argymhellwyd gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan ac a gytunwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
85. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Llanblethian** ar gyfer y ward gymunedol, fel yr argymhellwyd gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, a'r enw Cymraeg **Llanfleiddan** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
86. Yn olaf, o ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw unigol presennol **Aberthin**, fel yr argymhellwyd gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

87. Byddai'r trefniadau cyngor tref argymelledig yng nghyngor tref diwygiedig y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn cynnwys 4 ward: Aberthin, Canol y Bont-faen, Gogledd y Bont-faen, a Llanfleiddan. Argymhellir bod y cyngor tref yn cynnwys cyfanswm o 3,762 o etholwyr a gynrychiolir gan 15 o gynghorwyr tref.
88. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor tref a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor tref isod:

Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan (Cymysg)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiant (CT)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiant (CT)
Aberthin	370	2	185	-26%	370	2	185	-26%
Y Bont-faen	1,190	5	238	-5%	-	-	-	-
Dwyrain Llanfleiddan	1,053	4	263	5%	-	-	-	-
Gorllewin Llanfleiddan	1,133	4	283	13%	-	-	-	-
Canol y Bont-faen	-	-	-	-	2,377	6	396	58%
Gogledd y Bont-faen	-	-	-	-	621	4	155	-38%
Llanfleiddan	-	-	-	-	394	3	131	-48%
	3,746	15	250		3,762	15	251	


Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Dref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yr hawl i gyngor â 19 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiant ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi argymhell cyngor â 15 o aelodau, fel yr argymhellwyd gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, o ganlyniad i'r angen i ddarparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn o'r farn bod cyngor tref â 15 o aelodau yn darparu ar gyfer lefelau priodol o amrywiant ar draws ardal y cyngor tref ac yn adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

89. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
90. O ganlyniad i'r newidiadau argymelledig i drefniadau wardiau yn y Bont-faen, mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i ward etholiadol bresennol y Bont-faen:
91. Gan fod Cymuned Llan-fair yn rhan o ward etholiadol y Bont-faen ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn wedi ystyried y trefniadau etholiadol canlyniadol ar gyfer Llan-fair ar dudalen 123.
92. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwy r	Etholwyr fesul Cynghoryd d	Amrywia nt	Etholwyr	Cynghorwy r	Etholwyr fesul Cynghoryd d	Amrywia nt
Y Bont-faen	5,140	3	1,713	-11%	5,163	3	1,721	-4%
	5,140	3	1,933		5,163	3	1,800	

Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan




(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Pen-llin i Gogledd y Bont-faen



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Llanfleiddan Gorllewin i Gogledd y Bont-faen




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Llanfleiddan Gorllewin i Canol y Bont-faen




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Llanfleiddan Dwyrain i Canol y Bont-faen



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Llanfleiddan Dwyrain i Llanfleiddan



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

PEN-LLIN

93. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol ym Mhen-llin yn cynnwys 3 ward: Llansanwyr, Pen-llin, ac Ystradowen. Mae gan y gymuned gyfanswm o 1,394 o etholwyr a gynrychiolir gan 11 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Drefol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llansanwyr	158	2
Pen-llin	510	4
Ystradowen	726	5
Cyfanswm	1,394	11

Cynrychiolaethau

94. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymuned Pen-llin gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, Cyngor Cymuned Pen-llin, Cyngor Cymuned Llanddunwyd a Chynghorydd Sir ar gyfer ward y Bont-faen. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
95. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymuned Pen-llin gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Pen-llin, a Chyngor Cymuned Llanddunwyd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Cynigion ffiniau wardiau cymunedol

96. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 4 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Pen-llin i Ogledd y Bont-faen
 - Ystradowen i Llansanwyr
 - Pen-llin i Llansanwyr
 - Llanddunwyd i Ystradowen
97. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo'r ardal a adwaenir fel Fferm Darren o ward Pen-llin, sydd o fewn Cymuned Pen-llin ar hyn o bryd, i ward argymelledig Gogledd y Bont-faen. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 16 o etholwyr. Mae'r Comisiwn yn argymhell ymestyn y ffin fel y'i cynigiwyd yn yr Adroddiad Cynigion Drafft i gynnwys cae cymdogol i'r gorllewin hefyd a fydd yn ffurfio rhan o ddatblygiad arfaethedig Fferm Darren. Cyflwynwyd y cynnig hwn gan Gyngor Tref y Bont-faen, a ofynnodd hefyd i'r ffin ogleddol gael ei hystyngi i gynnwys eiddo ar ochr arall yr A48. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr A48 yn darparu ffin eglur ac wedi'i diffinio'n dda a bod yr argymhelliad yn cadw Eglwys Sant Frynach o fewn Pen-llin, fel y gofynnwyd yn flaenorol. Roedd Cyngor Cymuned Pen-llin yn cefnogi'r Cynigion Drafft ar gyfer ei gymuned. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ar yr un pryd â darparu ffin eglur ac wedi'i diffinio'n dda. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 60 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 61.
98. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Pen-llin i ward Llansanwyr. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 2 etholwr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Pen-llin i ganiatáu i'r eiddo sydd wedi'u lleoli yn yr ardal yr argymhellir ei throsglwyddo gael llwybr mynediad uniongyrchol i'w ward ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n dda rhwng Pen-llin a Llansanwyr. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 60 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 62.

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

99. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Ystradowen i ward Llansanwyr. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r dwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 78 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Pen-llin yn ystod y cam ymgynghori cychwynnol i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well ar gyfer ardal Llansanwyr. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 60 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 63.
100. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llanddunwyd o amgylch ystad Highgrove, sydd o fewn Cymuned Llanddunwyd, i ward Ystradowen yng Nghymuned Pen-llin. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal ystad Highgrove ac mae'n effeithio ar 23 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Pen-llin, ac fe'i cefnogir gan Gyngor Cymuned Llanddunwyd, yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i drosglwyddo'r ardal rhwng y cymunedau i ddarparu ffiniau wedi'u diffinio'n fwy eglur sy'n adlewyrchu'r datblygiadau presennol yn yr ardal. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 60 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 64.
101. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, bydd nifer yr etholwyr yng Nghymuned Pen-llin yn cynyddu i 1,401, gyda 23 o etholwyr yn trosglwyddo i Ben-llin o Gymuned Llanddunwyd ac 16 o etholwyr yn cael eu trosglwyddo o Dref y Bont-faen gyda Llanfleiddan.

Enwau Argymelledig

102. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Penllyn** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Pen-llin** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
103. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Penllyn** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Pen-llin** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) Order.
104. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg **Llansannor** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymhell yr enw Cymraeg **Llansanwyr** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
105. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw unigol **Ystradowen** ar gyfer y ward gymunedol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

106. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng nghyngor cymuned diwygiedig Pen-llin yn cynnwys 3 ward: Llansanwyr, Pen-llin, ac Ystradowen. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 1,401 o etholwyr a gynrychiolir gan 9 cynghorydd cymuned.
107. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor cymuned a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor cymuned ar dudalen 59:


Cyngor Cymuned Pen-llin (Gwledig)								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)
Llansanwyr	158	2	79	-38%	238	2	119	-7%
Pen-llin	510	4	128	1%	492	3	123	-3%
Ystradowen	726	5	145	15%	671	4	134	5%
	1,394	11	127		1,401	9	155	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Pen-llin yr hawl i gyngor â 9 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir, sef yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i argymhell. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Pen-llin i gadw'r nifer bresennol o gynghorwyr cymuned. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn argymhell Cyngor Cymuned â 9 aelod i leihau nifer y cynghorwyr cyfetholedig a seddau gwag er mwyn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor


108. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
109. Gan fod Cymuned Pen-llin yn rhan o ward etholiadol bresennol y Bont-faen, mae'r Comisiwn wedi ystyried y newidiadau canlyniadol i'r Bont-faen ar dudalen 50.

Cymuned Pen-Ilin




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Pen-llin i Gogledd y Bont-faen




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Pen-Ilin i Llansanwyr




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Ystradowen i Llansannor



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llanddunwyd i Ystradowen



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

DINAS POWYS

110. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Ninas Powys yn cynnwys 4 ward: Cross Common, Eastbrook, Murch, a Thwyn. Mae gan y gymuned gyfanswm o 6,519 o etholwyr a gynrychiolir gan 16 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Drefol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Cross Common	2,395	4
Eastbrook	1,322	4
Murch	1,379	4
Twyn	1,423	4
Cyfanswm	6,519	16

Cynrychiolaethau

111. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymuned Dinas Powys gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg, Cyngor Cymuned Dinas Powys, Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, ac un o breswylwyr Dinas Powys. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
112. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 6 chynrychiolaeth yn ymwneud â Chymuned Dinas Powys gan: VOGCPWG, Aelod o'r Senedd, Plaid Cymru Bro Morgannwg, Plaid Cymru Dinas Powys, Grŵp Ceidwadwyr Dosbarth Penarth, ac un o breswylwyr Dinas Powys. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

113. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 7 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Cross Common i Murch
 - Cross Common i Dwyn
 - Twyn i Cross Common
 - Llanfihangel-y-pwll i Eastbrook
 - Murch i Stanwell
 - Murch i Cornerswell
 - Murch i Plymouth
114. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo'r ardal a adwaenir fel datblygiad St Cyres o ward Cross Common i ward Murch. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 339 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Dinas Powys yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ganiatáu i breswylwyr yr ardal gael eu cynnwys yn ward Murch oherwydd bod ganddynt fynediad mwy eglur iddi. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Dinas Powys yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ac yn darparu mynediad gwell i breswylwyr i'w ward. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 68 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 69.
115. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Cross Common i ward Twyn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 488 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad hwn gan Gyngor Cymuned Dinas Powys yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ailalinio'r ffin gan ddefnyddio'r brif ffordd (yr A4055) i ganiatáu ar gyfer ffin fwy eglur rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Dinas Powys yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ffin fwy eglur a gwelliannau i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 68 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 70.
- Tudalen 65

116. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell trosglwyddo rhan o ward Twyn i ward Cross Common. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r dwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 21 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Dinas Powys yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ailalinio'r ffin gan ddefnyddio'r brif ffordd (yr A4055) i ganiatáu ar gyfer ffin fwy eglur rhwng y 2 ward. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Dinas Powys yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ffin fwy eglur a gwelliannau i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 68 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 71.
117. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn argymell trosglwyddo rhan o ward Llanfihangel-y-pwll, sy'n rhan o Gymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, i ward Eastbrook yng Nghymuned Dinas Powys. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o ward Llanfihangel-y-pwll ac mae'n effeithio ar 86 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Dinas Powys yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well ar gyfer ward Eastbrook oherwydd bod datblygiadau yn yr ardal yn ehangu y tu allan i ffin y gymuned. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Dinas Powys yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ar yr un pryd â darparu ffiniau mwy eglur. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 68 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 72.
118. Fel y crybwyllir ar dudalennau 29 a 30 uchod a'r mapiau ar dudalennau 38, 39 a 40, mae'r Comisiwn yn argymell trosglwyddo nifer o eiddo ar hyd Sully Road o ward Murch yn Nhref Dinas Powys i wardiau Stanwell, Cornerswell a Plymouth yn Nhref Penarth. Cyflwynwyd y cynnig hwn gan un o breswylwyr Dinas Powys yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a argymhellodd drosglwyddo'r eiddo ar hyd Sully Road i Benarth oherwydd bod ganddynt gysylltiadau cryfach â Thref Penarth na gweddill Dinas Powys. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn cynnig trefniadau amgen ar gyfer Dinas Powys yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae hyn yn golygu bod 70 yn llai o etholwyr yn ward Murch. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 68 ac yn fanylach ar y mapiau ar dudalennau 73, 74 a 75.
119. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, bydd nifer yr etholwyr yng Nghymuned Dinas Powys yn cynyddu i 6,535, gydag 86 o etholwyr yn trosglwyddo o Lanfihangel-y-pwll a Lecwydd, a 70 o etholwyr yn trosglwyddo o Ddinas Powys i Benarth.

Enwau Argymelledig

120. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol presennol **Dinas Powys** ar gyfer y gymuned, fel y rhagnodir yng Nghorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
121. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol presennol **Cross Common** ar gyfer y ward gymunedol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.
122. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw unigol presennol **Eastbrook** ar gyfer y ward gymunedol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.
123. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol presennol **Murch** ar gyfer y ward gymunedol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.
124. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol presennol **Twyn** ar gyfer y ward gymunedol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

Newidiadau Canlyniadol**Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned**

125. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng nghyngor cymuned diwygiedig Dinas Powys yn cynnwys 4 ward: Cross Common, Eastbrook, Murch, a Thwyn. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 6,535 o etholwyr a gynrychiolir gan 16 o gynghorwyr cymuned.
126. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol y cyngor cymuned a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor cymuned isod:

Cyngor Cymuned Dinas Powys (Cymysg)								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiad (CC)
Cross Common	2,395	4	599	47%	1,589	4	397	-3%
Eastbrook	1,322	4	331	-19%	1,408	4	352	-14%
Murch	1,379	4	345	-15%	1,648	4	412	1%
Twyn	1,423	4	356	-13%	1,890	4	473	16%
	6,519	16	407		6,535	16	408	


Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Dinas Powys yr hawl i gyngor â 33 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Mae'r Comisiwn wedi cynnig cadw'r aelodaeth bresennol, sef 16 o aelodau. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cyngor tref â 33 o aelodau yn anhylaw ac na fyddai'n adlewyrchu'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

127. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
128. Gan fod Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, y mae'r Comisiwn yn argymhell newidiadau iddi yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, yn rhan o ward etholiadol bresennol Dinas Powys, mae'r Comisiwn wedi ystyried y newidiadau canlyniadol i ward etholiadol Dinas Powys. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Dinas Powys yn cael ei ffurfio o Gymuned Dinas Powys. Ystyrir y newidiadau etholiadol canlyniadol yn ymwneud â Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd ar dudalen 78.
129. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiad
Dinas Powys	6,797	4	1,699	-12%	6,535	4	1,634	-9%
	6,797	4	1,933		6,535	4	1,800	

Cymuned Dinas Powys




(H) Hawffrwynt y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Cross Common i Murch




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Cross Common i Twyn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Twyn i Cross Common




(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llanfihangel-y-Pwll i Eastbrook




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Murch i Stanwell




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Murch i Cornerswell



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Murch i Plymouth



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

LLANDOCHAU A LLANFIHANGEL-Y-PWLL A LECWYDD

130. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llandochau yn cynnwys cyfanswm o 1,642 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 cynghorydd cymuned.

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llandochau	1,642	10
Cyfanswm	1,642	10

131. Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd yn cynnwys 2 ward: Llanfihangel-y-pwll, a Lecwydd. Mae gan y gymuned gyfanswm o 278 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Lecwydd	75	2
Llanfihangel-y-pwll	203	5
Cyfanswm	278	7

Cynrychiolaethau

132. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Cymuned Dinas Powys, Cyngor Cymuned Llandochau, a Chyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
133. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 13 o gynrychiolaethau yn ymwneud â Chymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Llandochau, Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, Plaid Cymru Dinas Powys, 1 Cynghorydd Sir, ac 8 preswylwr. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

134. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud 2 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Llanfihangel-y-pwll i Eastbrook
 - Creu cymuned newydd a adwaenir fel Llandochau a Chwrtyrall
135. Mae'r Comisiwn yn argymell trosglwyddo rhan o ward Llanfihangel-y-pwll, sy'n rhan o Gymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, i ward Eastbrook yng Nghymuned Dinas Powys. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 86 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Dinas Powys yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well ar gyfer ward Eastbrook oherwydd bod datblygiadau yn yr ardal yn ehangu y tu allan i ffin y gymuned. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ar yr un pryd â darparu ffiniau priodol. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 79 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 80.
136. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell diddymu cymunedau Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, a Llandochau a defnyddio'r 2 ardal i ffurfio Cymuned argymelledig Llandochau a Chwrtyrall. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn yn argymell defnyddio

ffiniau ward gymunedol ddiwygiedig Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, a ffiniau cymunedol Llandochau i greu wardiau cymunedol yn y gymuned argymelledig. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 79.

137. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai Cymuned newydd Llandochau a Chwrtyrall yn cynnwys 1,834 o etholwyr, gydag 86 o etholwyr yn trosglwyddo o ward bresennol Llanfihangel-y-pwll i ward Eastbrook yng Nghymuned Dinas Powys.

Enwau Argymelledig

138. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Llandough and Cwrtyrall** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Llandochau a Chwrtyrall** fel yr argymhellwyd gan VOGCPWG. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig ac awgrymodd ddefnyddio'r ffurf Cwrtyrall fel un gair er mwyn gwahaniaethu rhwng y Faenor o'r un enw.
139. Mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Michaelston** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg **Llanfihangel-y-pwll**, fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ac y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.
140. Mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Leckwith** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg **Lecwydd** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
141. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Llandough** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg **Llandochau** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

142. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng Nghymuned newydd Llandochau a Chwrtyrall yn cynnwys 3 ward: Llandochau, Lecwydd, a Llanfihangel-y-pwll. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 1,834 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned.
143. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymhell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor cymuned isod:

Cyngor Cymuned Llandochau a Chwrtyrall (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)
Llandochau	1,642	10	164	45%	1,642	6	274	19%
Lecwydd	75	2	38	-66%	75	1	75	-67%
Llanfihangel-y-pwll	203	5	41	-64%	117	1	117	-49%
	1,920	17	113		1,834	8	229	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Llandochau a Chwrtyrall yr hawl i gyngor â 12 o aelodau a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Mae'r Comisiwn wedi cynnig aelodaeth gyffredinol o 8 cynghorydd. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cyngor ag 8 aelod yn darparu lefelau priodol o amrywiad ar draws y cyngor cymuned ac yn sicrhau

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL


llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'r Polisi Maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn caniatáu ar gyfer dyrannu 1 cynghorydd cymuned yr un i wardiau Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd, ac mae'r Comisiwn yn fodlon bod dyrannu 6 chynghorydd i ward Llandochau yn darparu lefel amrywiant sydd o fewn 25% o'r cyfartaledd cymunedol ac yn caniatáu ar gyfer dosbarthu cynghorwyr yn decach ar draws y wardiau cymunedol.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

144. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
145. Mae Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd o fewn ward etholiadol Dinas Powys ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y newidiadau canlyniadol i Ddinas Powys ar dudalen 67. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Llandochau yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Llandochau a Chwrtyrala.
146. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant
Llandochau	1,642	1	1,642	-15%	1,834	1	1,834	2%
	1,642	1	1,933		1,834	1	1,800	

Cymuned Llandochau a Chwrtyrala



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llanfihangel-y-pwll i Eastbrook



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

LLANCARFAN, SAIN NICOLAS A THRESIMWN A GWENFÔ

147. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llandcarfan yn cynnwys 2 ward: Llandcarfan, a Llantridddyd. Mae gan y gymuned gyfanswm o 640 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llandcarfan	463	7
Llantridddyd	177	3
Cyfanswm	640	10

148. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Sain Nicolas a Thresimwn yn cynnwys 2 ward: Tresimwn, a Sain Nicolas. Mae gan y gymuned gyfanswm o 908 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Tresimwn	396	4
Sain Nicolas	512	6
Cyfanswm	908	10

149. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yng Ngwenfô yn cynnwys 2 ward: Llwyneliddon, a Gwenfô. Mae gan y gymuned gyfanswm o 2,276 o etholwyr a gynrychiolir gan 11 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llwyneliddon	592	2
Gwenfô	1684	9
Cyfanswm	2,276	11

Cynrychiolaethau

150. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 10 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Sain Nicolas a Thresimwn, Llandcarfan, y Rhws, a Gwenfô gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn, Cyngor Cymuned Llandcarfan, Cyngor Cymuned Llanddunwyd, Cyngor Cymuned Sain Siorys, Cynghorydd Sir ar gyfer ward y Rhws, Pwyllgor Neuadd Bentref Pen-marc, Partneriaeth Gymunedol Dwyrain Aberddawan, a 2 o breswylwyr y Rhws. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
151. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 18 o gynrychiolaethau yn ymwneud â Chymunedau Sain Nicolas a Thresimwn, Llandcarfan, y Rhws, a Gwenfô gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Llandcarfan, Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn, Cyngor Cymuned Gwenfô, 4 Cynghorydd Sir, 1 Grŵp Gwleidyddol, a 9 preswylwr. Roedd y cynrychiolaethau hefyd yn cynnwys dwy ddeiseb yn gwrthwynebu trosglwyddo Llwyneliddon a oedd yn cynnwys 80 a 50 o lofnodion, yn y drefn honno, ac ymgyrch lythyru yn ymwneud â Phen-marc yn cynnwys 18 o gyflwyniadau. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

152. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 12 o newidiadau i ffiniau presennol cymunedau, gan gynnwys creu wardiau cymunedol newydd ar gyfer 'Dyffryn' a 'Pharc Gwenfô', sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Sain Siorys i Sain Nicolas
 - Llwyneliddon i Sain Nicolas
 - Sain Nicolas i Lanbedr-y-fro
 - Tresimwn i Sain Nicolas
 - Pendeulwyn i Dresimwn
 - Llanddunwyd i Dresimwn
 - Llantridddyd i Dresimwn
 - Llancarfan i Dresimwn
 - Llwyneliddon i Llancarfan
 - Sain Nicolas i Llancarfan
 - Llwyneliddon i Wenfô
 - Creu ward Parc Gwenfô (Cyngor Cymuned Gwenfô)
 - Creu ward Dyffryn (Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn)
153. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Sain Siorys, sy'n rhan o Gymuned Sain Siorys, i ward Sain Nicolas yng Nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 104 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i drosglwyddo'r ardal a adwaenir fel 'The Downs' o Sain Siorys i Sain Nicolas trwy ddefnyddio'r A48 i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well ar gyfer ward Sain Nicolas. Cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig i'r ffin. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn awgrymu y dylai ardal amgen yn cynnwys ystad Coedarhydglyn gael ei throsglwyddo i Sain Nicolas hefyd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ar yr un pryd â darparu ffin eglur sy'n defnyddio'r A48. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 89 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 91.
154. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llwyneliddon, sydd yng Nghymuned Gwenfô ar hyn o bryd, i ward Sain Nicolas yng Nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd o'r ward ac mae'n effeithio ar 9 etholwr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG, Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn, y Cyngorydd Ian Perry, a Phlaid Cymru Bro Morgannwg yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, a awgrymodd y dylai nifer o dai sydd o fewn Llwyneliddon ar hyn o bryd ond sy'n rhan o'r ardal a adwaenir fel 'The Downs' drosglwyddo i ward Sain Nicolas hefyd. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus ar yr un pryd â sicrhau bod ardal gyfan 'The Downs' wedi'i chynnwys mewn un ward gymunedol. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 89 a 90 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 92.
155. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Sain Nicolas, o amgylch yr eiddo 'Endless Acres', i ward Lanbedr-y-fro. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd o'r ward ac mae'n effeithio ar 2 etholwr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a ddywedodd y byddai diwygio'r ffin yn caniatáu i breswylwyr 'Endless Acres' gerdded i'r orsaf bleidleisio yn Lanbedr-y-fro gan fod yr eiddo'n perthyn yn ffisegol i Lanbedr-y-fro. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 89 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 93.
156. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Tresimwn i ward Sain Nicolas. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r dwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 7 etholwr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i ailalinio'r ffin rhwng wardiau Tresimwn, a Sain Nicolas i ddefnyddio ffordd yr A4226 i ddarparu ffin

weladwy, resymegol a chofiadwy. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 89 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 94.

157. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Pendeulwyn i ward Tresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 14 o etholwyr. Mae'r argymhelliad yn cydffinio ffin Tresimwn â ffin cod post CF5 i'w gwneud yn fwy amlwg i breswylwyr ba gymuned maen nhw'n byw ynddi ac yn uno Clwb Golff Parc Cottrell o fewn un ardal gymunedol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a ddywedodd y byddai'r newidiadau'n sicrhau bod ffiniau'r wardiau'n fwy adnabyddadwy a synhwyrol i breswylwyr. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 89 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 95.
158. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llanddunwyd i ward Tresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 12 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i drosglwyddo'r ardal o amgylch 'Tŷ Tresimwn' i ward Tresimwn. Dywedodd y Cyngor Cymuned fod cyfeiriad yr eiddo yn Nhresimwn, ac y dylai'r eiddo gael ei leoli o fewn ward Tresimwn. Gwrthwynebodd Cyngor Cymuned Llanddunwyd y cynnig yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad i drosglwyddo'r ardal o amgylch Tŷ Tresimwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 85 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 96.
159. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llantriddyd i ward Tresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r gogledd a'r dwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 39 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn i drosglwyddo'r ardal o amgylch Chwarel Tresimwn, Neuadd Tresimwn ac eiddo sydd â chysylltiad agos â Thresimwn i ward Tresimwn. Dywedodd y Cyngor Cymuned fod y ffin bresennol yn ddryslyd ac yn creu anghysondeb sy'n lleoli Liege Manor, y mae ei brif ffordd fynediad yn ward Tresimwn, o fewn ward Llantriddyd, a bod eiddo i'r de o Liege Manor wedi'u lleoli yn Nhresimwn. Byddai'r argymhelliad hwn yn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn ac yn uno'r eiddo amgylchynol o fewn un ward gymunedol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 88 ac 89 ac yn fanylach ar y mapiau ar dudalennau 97 a 98.
160. Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llancarfan i ward Tresimwn yng Nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r dwyrain o'r ward ac nid yw'n effeithio ar unrhyw etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i alinio'r ffin â Nant Tresimwn er mwyn sicrhau bod tir o amgylch Bwthyn Abernant yn cael ei drosglwyddo'n briodol i ward Tresimwn. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 88 ac 89 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 99.
161. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llwyneliddon i ward Llancarfan yng Nghymuned Llancarfan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 7 etholwr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori i alinio'r ffin â'r A4226 er mwyn darparu ffin fwy eglur rhwng Cymunedau Llancarfan a ward arfaethedig Dyffryn yn Sain Nicolas a Thresimwn. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 88 a 90 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 100.

162. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Sain Nicolas i ward Llancarfan yng Nghymuned Llancarfan. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r de-ddwyrain o'r ward ac nid yw'n effeithio ar unrhyw etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori i ddarparu ffin fwy eglur rhwng y ddwy gymuned. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 88 ac 89 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 101.
163. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell creu ward newydd o fewn Cymuned Gwenfô. Mae hyn yn golygu creu ward newydd yng ngogledd y gymuned ac mae'n effeithio ar 810 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Gwenfô a VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, a argymhellodd greu ward newydd Parc Gwenfô o fewn Cymuned Gwenfô trwy ddefnyddio dosbarth pleidleisio PA1 (Gwenfô B). Mae'r ardal hon yn cynnwys 421 o etholwyr. Cynigir hefyd trosglwyddo ardal o ward Llwyneliddon o amgylch parc manwerthu Croes Cwrlwys ac ystad dai newydd Parc Llwyneliddon. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori ac mae'n trosglwyddo 389 o etholwyr eraill o Lwyneliddon i ward arfaethedig Parc Gwenfô. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 90 ac yn fanylach ar y mapiau ar dudalennau 102 a 103.
164. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llwyneliddon, o amgylch ardal Twyn-yr-Odyn, sy'n rhan o Gymuned Gwenfô ar hyn o bryd, i ward Gwenfô yng Nghymuned Gwenfô. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r gogledd o'r ward ac mae'n effeithio ar 71 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori a gynigiodd fod ardal Twyn-yr-Odyn yn cael ei chadw o fewn ardal Cyngor Cymuned Gwenfô. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 90 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 104.
165. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio gweddill ward Llwyneliddon, ar ôl trosglwyddo ardaloedd i Sain Nicolas, Llancarfan, Parc Gwenfô, a Gwenfô i ffurfio ward gymunedol newydd Dyffryn o fewn Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn, sy'n effeithio ar 116 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori a wrthwynebodd drosglwyddo ardal gyfan Llwyneliddon i Sain Nicolas a Thresimwn ac a awgrymodd rannu'r ardal yn briodol i ffurfio ward newydd Dyffryn. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y mapiau ar dudalennau 89 a 90 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 105.
166. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai nifer yr etholwyr yng Nghymuned Llancarfan yn lleihau i 588, gyda 59 o etholwyr yn trosglwyddo o Lancarfan i Sain Nicolas a Thresimwn, a 7 etholwr yn trosglwyddo i Lancarfan o Lwyneliddon.
167. Byddai nifer yr etholwyr yng Nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn cynyddu i 1,201, gyda 2 etholwr yn trosglwyddo o Sain Nicolas a Thresimwn i Lanbedr-y-fro, 104 o etholwyr yn trosglwyddo o Sain Siorys i Sain Nicolas a Thresimwn, 9 etholwr yn trosglwyddo o Lwyneliddon, 14 o etholwyr yn trosglwyddo o Bendeulwyn i Sain Nicolas a Thresimwn, 12 o etholwyr yn trosglwyddo o Landdunwyd i Sain Nicolas a Thresimwn, a 39 o etholwyr yn trosglwyddo o Lancarfan i Sain Nicolas a Thresimwn, a chreu ward Dyffryn ag 116 o etholwyr.
168. Yn olaf, byddai nifer yr etholwyr yng Nghymuned Gwenfô yn lleihau i 2,144, gyda 123 o etholwyr yn trosglwyddo o Wenfô i Sain Nicolas a Thresimwn, 9 etholwr yn trosglwyddo o Lwyneliddon i Sain Nicolas a 7 etholwr yn trosglwyddo o Lwyneliddon i Lancarfan.

Enwau Argymelledig

169. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol presennol **Llancarfan** ar gyfer y gymuned, fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
170. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **St Nicholas and Bonvilston** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Sain Nicolas a Thresimwn**, fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
171. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Wenvoe** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Gwenfô**, fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
172. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Llantrithyd** ar gyfer y ward gymunedol, ac mae'n argymell yr enw Cymraeg **Llantriddyd** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
173. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **St Nicholas** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Sain Nicolas** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
174. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Bonvilston** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Tresimwn** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
175. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell yr enw unigol **Dyffryn** ar gyfer y ward gymunedol, fel y cynigiwyd gan VOGCPWG. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.
176. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Wenvoe** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Gwenfô** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
177. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **Brooklands** ar gyfer y ward gymunedol, fel yr argymhellwyd gan Gyngor Cymuned Gwenfô, gan fod yr enw hwn wedi cael ei ddefnyddio ar wefan Cyngor Cymuned Gwenfô, a hefyd yn y Barry and District Times, a'r enw Cymraeg **Parc Gwenfô** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol**Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned**

178. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yn ardal argymelledig cyngor cymuned Llancarfan yn cynnwys 2 ward: Llancarfan a Llantriddyd. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 588 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned.
179. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yn ardal argymelledig cyngor cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn cynnwys 3 ward: Tresimwn, Sain Nicolas a Dyffryn. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 1,201 o etholwyr a gynrychiolir gan 11 o gynghorwyr cymuned.
180. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yn ardal argymelledig cyngor cymuned Gwenfô yn cynnwys 2 ward: Parc Gwenfô a Gwenfô. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 2,144 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 cynghorydd cymuned.
181. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cynghorau cymuned a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cynghorau cymuned isod:

Cyngor Cymuned Llancarfan (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Llancarfan	463	7	66	3%	470	5	94	8%
Llantriddyd	177	3	59	-8%	138	2	69	-21%
	640	10	64		608	7	87	

Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Tresimwn	396	4	99	9%	454	4	114	4%
Sain Nicolas	512	6	85	-6%	631	6	105	-4%
Dyffryn	-	-	-	-	116	1	116	6%
	908	10	91		1,201	11	109	

Cyngor Cymuned Gwenfô (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Parc Gwenfô	-	-	-	-	810	4	203	-6%
Gwenfô	1,684	9	187	-10%	1,334	6	222	4%
Llwyneliddon	592	2	296	43%	-	-	-	-
	2,276	11	207		2,144	10	214	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Llancarfan yr hawl i 5 cynghorydd. Fodd bynnag, mae'r polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn datgan na ddylai cymunedau gael eu cynrychioli gan lai na 7 cynghorydd. Felly, mae'r Comisiwn wedi argymhell bod Cymuned Llancarfan yn cael ei chynrychioli gan 7 cynghorydd. Mae hyn hefyd yn lleihau nifer y seddau cyfetholedig ar y Cyngor Cymuned ac yn gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Gwenfô yr hawl i 11 o gynghorwyr. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn fodlon bod lefel yr amrywiad a ddarperir gan gyngor â 10 cynghorydd yn briodol ac yn addas i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi y byddai'r polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Sain Nicolas a Thresimwn yr hawl i 8 cynghorydd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn

fodlon ar lefel yr amrywiant a ddarperir gan gyngor ag 11 o gynghorwyr o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr etholwyr a ffurfio ardal ward gymunedol newydd. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn cael ei chynrychioli gan 11 o gynghorwyr i gyfrif am y newidiadau a fanylwyd uchod ac i ddarparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus.


Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

182. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
183. Gan fod Cymuned Sain Siorys, y mae'r Comisiwn yn argymhell newidiadau iddi yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ar dudalen 108, yn rhan o ward etholiadol bresennol Sain Nicolas a Llancarfan, mae'r Comisiwn wedi ystyried y newidiadau canlyniadol i ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan yn cael ei ffurfio o Gymunedau Llancarfan, a Sain Nicolas a Thresimwn. O ganlyniad i'r newidiadau argymelledig i ffiniau Cymuned Gwenfô, mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i ward etholiadol Gwenfô fel y rhestrir isod:
- Sain Nicolas a Llancarfan
 - Gwenfô
184. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:

Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant
Sain Nicolas a Llancarfan	1,885	1	1,885	-2%	1,808	1	2,400	0%
	1,885	1	1,933		1,808	1	1,800	


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiant
Gwenfô	2,276	1	2,276	18%	2,144	1	2,144	19%
	2,276	1	1,933		2,144	1	1,800	

Cymuned Llancarfan




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Cymuned Gwenfô




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Sain Siorys i Sain Nicolas




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llwyneliddon i Sain Nicolas




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Sain Nicolas i Lanbedr-y-fro




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Tresimwn i Sain Nicolas




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Pendeulwyn i Dresimwn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llanddunwyd i Dresimwn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llantriddyd i Dresimwn (1)




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llantriddyd i Dresimwn (2)




Ardal Llancarfan i Dresimwn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llwyneliddon i Llandarfan




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Sain Nicolas i Lencarfan




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Gwenfô i Barc Gwenfô




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llwyneliddon i Barc Gwenfô




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llwyneliddon i Gwenfô



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llwyneliddon i Dyffryn



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

LLANBEDR-Y-FRO A SAIN SIORYS

185. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llanbedr-y-fro yn cynnwys cyfanswm o 722 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned.

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llanbedr-y-fro	722	8
Cyfanswm	722	8

186. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Sain Siorys yn cynnwys 2 ward: Llansanffraid-ar-Elái, a Sain Siorys. Mae gan y gymuned gyfanswm o 337 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llansanffraid-ar-Elái	100	2
Sain Siorys	237	5
Cyfanswm	337	7

Cynrychiolaethau

187. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Llanbedr-y-fro a Sain Siorys gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), a Chyngor Cymuned Sain Siorys. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
188. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Llanbedr-y-fro a Sain Siorys gan: VOGCPWG a Chyngor Cymuned Sain Siorys. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

189. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 3 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Sain Siorys i Sain Nicolas
 - Sain Nicolas i Lanbedr-y-fro
 - Creu cymuned newydd a adwaenir fel Llanbedr-y-fro a Sain Siorys
190. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Sain Siorys, sy'n rhan o Gymuned Sain Siorys, i ward Sain Nicolas yng Nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 104 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i drosglwyddo'r ardal a adwaenir fel 'The Downs' o Sain Siorys i Sain Nicolas trwy ddefnyddio'r A48 i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n well ar gyfer ward Sain Nicolas. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 108 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 109.
191. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Sain Nicolas, o amgylch yr eiddo 'Endless Acres', i ward Llanbedr-y-fro. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd o'r ward gymunedol ac mae'n effeithio ar 2 etholwr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn a ddywedodd y byddai diwygio'r ffin yn caniatáu i breswylwyr 'Endless Acres' gerdded i'r orsaf bleidleisio yn Llanbedr-y-fro gan fod yr eiddo'n perthyn yn ffisegol i Lanbedr-y-fro. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 108 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 110.

192. Mae'r Comisiwn yn argymhell diddymu cymunedau Llanbedr-y-fro a Sain Siorys a defnyddio'r 2 ardal i ffurfio Cymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys. Mae hyn yn golygu creu cymuned newydd sy'n cynnwys 2 gymuned wledig gynddogol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG i gyfuno'r 2 gymuned er mwyn ffurfio ardal gymunedol newydd. Mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio ffiniau cymuned a wardiau cymunedol diwygiedig Llanbedr-y-fro a Sain Siorys i greu wardiau cymunedol yn y gymuned newydd. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 108.
193. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai 957 o etholwyr yng Nghymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys.
194. Byddai gan ward gymunedol newydd Llanbedr-y-fro 724 o etholwyr, gyda 2 etholwr yn trosglwyddo o Sain Nicolas a Thresimwn. Byddai gan ward gymunedol newydd Llansanffraid-ar-Elái 100 o etholwyr a byddai gan ward gymunedol Sain Siorys 133 o etholwyr oherwydd bod 104 o etholwyr yn trosglwyddo i Sain Nicolas a Thresimwn.

Enwau Argymelledig

195. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Peterston and St Georges** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Llanbedr-y-fro a Sain Siorys** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
196. Mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Peterston-super-Ely** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg presennol **Llanbedr-y-fro** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
197. Mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **St Georges-super-Ely** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg presennol **Sain Siorys** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
198. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **St Brides-super-Ely** ar gyfer y ward gymunedol ac yn argymhell yr enw Cymraeg **Llansanffraid-ar-Elái** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

199. Mae'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yn ardal cyngor cymuned newydd Cymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys yn cynnwys 3 ward: Llanbedr-y-fro, Llansanffraid-ar-Elái, a Sain Siorys. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 957 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned.
200. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymhell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cyngor cymuned ar dudalen 107:

Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys (Gwledig)								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)
Llanbedr-y-fro	722	8	90	27%	724	4	181	32%
Llansanffraid-ar-Elái	100	2	50	-30%	100	1	100	-27%
Sain Siorys	237	5	47	-34%	133	2	67	-51%
	1,059	15	71		957	7	137	


Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys yr hawl i 6 chynghorydd cymuned a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r polisi maint y Cyngor hefyd yn datgan na ddylai cymuned gael ei chynrychioli gan lai na 7 cynghorydd cymuned. Felly, mae'r Comisiwn wedi argymhell bod Cymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys yn cael ei chynrychioli gan 7 cynghorydd cymuned.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

201. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
202. Gan fod Cymuned Sain Siorys o fewn ward etholiadol Sain Nicolas a Llancarfan ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Llanbedr-y-fro yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys a Chymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd a ystyrir ar dudalen 114.
 - Llanbedr-y-fro
203. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Llanbedr-y-fro	1,609	1	1,609	-17%	1,795	1	1,795	0%
	1,609	1	1,933		1,795	1	1,800	

Cymuned Llanbedr-y-fro a Sain Siorys




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Sain Siorys i Sain Nicolas



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Sain Nicolas i Llanbedr-y-fro



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

PENDEULWYN A LLANDDUNWYD

204. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol ym Mhendeulwyn yn cynnwys cyfanswm o 432 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned.

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Pendeulwyn	432	8
Cyfanswm	432	8

205. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llanddunwyd yn cynnwys cyfanswm o 455 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned.

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llanddunwyd	455	8
Cyfanswm	455	8

Cynrychiolaethau

206. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Pendeulwyn, a Llanddunwyd gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), a Chyngor Cymuned Llanddunwyd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
207. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Pendeulwyn a Llanddunwyd gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Pendeulwyn, a Chyngor Cymuned Llanddunwyd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

208. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 4 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:
- Llanddunwyd i Ystradowen (Pen-Ilin)
 - Llanddunwyd i Dresimwn
 - Pendeulwyn i Dresimwn
 - Creu cymuned newydd a adwaenir fel Pendeulwyn a Llanddunwyd.
209. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llanddunwyd o amgylch ystad Highgrove, sydd o fewn Cymuned Llanddunwyd, i ward Ystradowen yng Nghymuned Pen-Ilin. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal ystad Highgrove ac mae'n effeithio ar 23 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Pen-Ilin yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, ac fe'i cefnogir gan Gyngor Cymuned Llanddunwyd, i drosglwyddo'r ardal rhwng y cymunedau i ddarparu ffiniau wedi'u diffinio'n fwy eglur sy'n adlewyrchu'r datblygiadau presennol yn yr ardal. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 114 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 115.
210. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llanddunwyd i ward Tresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 12 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i drosglwyddo'r ardal o amgylch 'Tŷ Tresimwn' i ward Tresimwn. Dywedodd y Cyngor Cymuned fod cyfeiriad yr eiddo yn Nhresimwn, ac y dylai'r eiddo gael ei leoli o fewn ward Tresimwn. Gwrthwynebodd Cyngor Cymuned Llanddunwyd y cynnig hwn yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod

yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 114 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 116.

211. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Pendeulwyn i ward Tresimwn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo ardal i'r de o'r ward ac mae'n effeithio ar 14 o etholwyr. Mae'r argymhelliad yn cydffinio ffin Tresimwn â ffin cod post CF5 i'w gwneud yn fwy amlwg i breswylwyr ba gymuned maen nhw'n byw ynddi ac yn uno Clwb Golff Parc Cottrell o fewn un ardal gymunedol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a ddywedodd y byddai'r newidiadau'n sicrhau bod ffiniau'r wardiau'n fwy adnabyddadwy a synhwyrol i breswylwyr. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 114 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 117.
212. Mae'r Comisiwn yn argymhell diddymu cymunedau Pendeulwyn a Llanddunwyd a defnyddio'r 2 ardal i ffurfio cymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd. Mae hyn yn golygu creu cymuned newydd sy'n cynnwys 2 gymuned wledig gymdogol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG i gyfuno'r 2 gymuned er mwyn ffurfio ardal gymunedol newydd. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio ffiniau cymunedol diwygiedig Pendeulwyn, a Llanddunwyd i greu wardiau cymunedol yn y gymuned newydd. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 114.
213. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai 838 o etholwyr yng Nghymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd.
214. Byddai gan ward gymunedol newydd Pendeulwyn 418 o etholwyr, gyda 14 o etholwyr yn trosglwyddo i Sain Nicolas a Thresimwn. Byddai gan ward gymunedol newydd Llanddunwyd 420 o etholwyr, gyda 23 o etholwyr yn trosglwyddo i Ben-llin, a 12 o etholwyr yn trosglwyddo i Sain Nicolas a Thresimwn.

Enwau Argymelledig

215. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Pendoylan and Welsh St Donats** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Pendeulwyn a Llanddunwyd** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
216. Mae'r Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Pendoylan** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymhell yr enw Cymraeg **Pendeulwyn**, fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
217. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell cadw'r enw Saesneg presennol **Welsh St Donats** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymhell yr enw Cymraeg **Llanddunwyd** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

218. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng Nghymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd yn cynnwys 3 ward: Pendeulwyn, a Llanddunwyd. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 838 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned.
219. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymhell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cynghorau cymuned isod:

Cyngor Cymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd (Gwledig)								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)
Pendeulwyn	432	8	54	-2%	418	4	105	0%
Llanddunwyd	455	8	57	4%	420	4	105	0%
	887	16	55		838	8	105	


Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd yr hawl i 6 chynghorydd cymuned a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r polisi maint y Cyngor hefyd yn datgan na ddylai cymuned gael ei chynrychioli gan lai na 7 cynghorydd cymuned. Mae'r Comisiwn wedi argymhell bod Cymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd yn cael ei chynrychioli gan 8 cynghorydd cymuned er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

220. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
221. Gan fod Cymunedau Pendeulwyn a Llanddunwyd yn rhan o ward etholiadol Llanbedr-y-fro ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Llanbedr-y-fro yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Llanbedr-y-fro a Sain Siorys, a ystyrir ar dudalen 108, a Chymuned newydd Pendeulwyn a Llanddunwyd. Rhoddir trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod unwaith eto.
222. Gellir gweld trefniadau argymelledig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Llanbedr-y-fro	1,609	1	1,609	-17%	1,795	1	1,795	0%
	1,609	1	1,933		1,795	1	1,800	

Cymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llanddunwyd i Ystradowen




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llanddunwyd i Dresimwn



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Pendeulwyn i Dresimwn



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

LLANDŴ, LLAN-FAIR A LLAN-FAES

223. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llandŵ yn cynnwys 3 ward: Llandŵ, Llanfihangel y Bont-faen a Llysyrny. Mae gan y gymuned gyfanswm o 594 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llandŵ	234	4
Llanfihangel y Bont-faen	130	2
Llysyrny	230	4
Cyfanswm	594	10

224. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llan-fair yn cynnwys 2 ward: Llan-fair a Saint Hilari. Mae gan y gymuned gyfanswm o 515 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llan-fair	320	5
Saint Hilari	195	3
Cyfanswm	515	8

225. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llan-faes yn cynnwys cyfanswm o 354 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned.

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llan-faes	354	7
Cyfanswm	354	7

Cynrychiolaethau

226. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Llandŵ, a Llan-faes gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Cymuned Llandŵ, a Chyngor Cymuned Llan-faes. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
227. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 26 o gynrychiolaethau yn ymwneud â Chymunedau Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Llandŵ, Cyngor Cymuned Llan-fair, Cyngor Cymuned Llan-faes a 22 o breswylwyr Llan-faes. Cafodd y Comisiwn 19 o lythyrau gan breswylwyr Llan-faes hefyd yn rhan o ymgyrch lythyru. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

228. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 2 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys trosglwyddo ardaloedd rhwng yr ardaloedd cymunedol canlynol:

- Llan-faes i Drebefered (Llanilltud Fawr)
- Creu cymuned newydd a adwaenir fel Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes.

229. Mae'r Comisiwn yn argymhell trosglwyddo rhan o ward Llan-faes, sydd o fewn Cymuned Llan-faes ar hyn o bryd, i ward Trebefered. Mae hyn yn golygu trosglwyddo'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r ward ac mae'n effeithio ar 5 o etholwyr. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr yn ystod y cyfnod

ymgyngori cychwynnol, ac fe'i cefnogwyd gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgyngori cychwynnol, i ganiatáu i'r ardal sydd rhwng ward bresennol Trebefered a'r Ffordd Fynediad Ogleddol gael ei chynnwys o fewn ward Trebefered ac i ddarparu ffin fwy eglur ac wedi'i diffinio'n dda rhwng y 2 ward. Gwrthwynebodd Cyngor Cymuned Llan-faes a nifer o breswylwyr unrhyw newidiadau i Gymuned Llan-faes yn ystod y cyfnod ymgyngori cyntaf a'r ail gyfnod ymgyngori. Fodd bynnag, mae Cymuned Llan-faes o dan y paramedrau a amlinellir yn y Polisi Maint y Cyngor ac mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 122 ac yn fanylach ar y map ar dudalen 123.

230. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell diddymu cymunedau Llandŵ a Llan-fair, a gweddill Cymuned Llan-faes a defnyddio'r 3 ardal i ffurfio Cymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes. Mae hyn yn golygu creu cymuned newydd sy'n cynnwys 3 cymuned wledig gyndogol. Cyflwynwyd yr argymhelliad fel awgrym amgen gan Gyngor Cymuned Llan-faes yn ystod y cyfnod ymgyngori cychwynnol, a chan VOGCPWG yn ystod yr ail gyfnod ymgyngori i gyfuno'r 3 cymuned hyn i ffurfio 'clwstwr gwledig'. Gan nad yw'r Comisiwn yn argymell cynnwys Cymuned Llan-fair yn Nhref y Bont-faen gyda Llanfleiddan mwyach, mae'r Comisiwn yn argymell cynnwys ardal cymuned Llan-fair yn ardal y cyngor cymuned gwledig newydd hwn. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn yn argymell defnyddio ffiniau wardiau cymunedol presennol Llandŵ, Llanfihangel y Bont-faen a Llyswyrny, Llan-fair a Saint Hilari, a ffin gymunedol Llan-faes i greu wardiau cymunedol yn y gymuned newydd. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 122.
231. O ganlyniad i'r argymhellion yn, bydd 1,458 o etholwyr yng Nghymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes.
232. Byddai gan ward gymunedol newydd Llandŵ 234 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Llanfihangel y Bont-faen 130 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Llyswyrny 230 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Llan-faes 349 o etholwyr, gyda 5 etholwr yn trosglwyddo i Lanilltud Fawr. Byddai gan ward gymunedol newydd Llan-fair 320 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Saint Hilari 195 o etholwyr.

Enwau Argymelledig

233. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **Llandow, Llanfair and Llanmaes**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymell defnyddio'r ffurf unigol Llan-fair yn y ddwy iaith, oherwydd dyma'r ffurf a gydnabyddir yn y Rhestr Safonedig o Enwau Lleoedd Cymraeg ac a ddefnyddir ar arwyddion yn yr ardal hefyd. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r ffurf Saesneg Llanfair oherwydd dyma'r enw a ragnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell yr enw Cymraeg **Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes** ar gyfer y gymuned, gan ddefnyddio'r ffurf Llan-faes fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
234. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Llandow** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Llandŵ** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
235. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Llanmaes** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Llan-faes** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
236. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **Llanmihangel** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Llanfihangel y Bont-faen** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

237. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Llysworney** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Llyswyrny** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
238. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell yr enw Saesneg newydd **Llanfair** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Llan-fair** fel yr argymhellwyd ym mharagraff 230 uchod.
239. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio'r enw Saesneg **St Hilary** ar gyfer y ward gymunedol, a'r enw Cymraeg **Saint Hilari** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

240. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng Nghymuned newydd Llandŵ a Llan-faes yn cynnwys 6 ward: Llandŵ, Llanfihangel y Bont-faen, Llyswyrny, Llan-fair, Saint Hilari a Llan-faes. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 1,458 o etholwyr a gynrychiolir gan 13 o gynghorwyr cymuned.
241. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymhell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cynghorau cymuned isod.

Cyngor Cymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghoryd	Amrywiad (CC)
Llandŵ	234	4	59	0%	234	2	117	4%
Llanfihangel y Bont-faen	130	2	65	10%	130	1	130	16%
Llyswyrny	230	4	58	-2%	230	2	115	3%
Llan-faes	354	7	51	-14%	349	3	116	4%
Llan-fair	320	5	64	8%	320	3	107	-5%
Saint Hilari	195	3	65	10%	195	2	98	-13%
	1,463	25	59		1,458	13	112	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes yr hawl i 10 chynghorydd cymuned a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi argymhell bod Cymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes yn cael ei chynrychioli gan 13 o gynghorwyr cymuned i ddarparu lefelau derbyniol o amrywiad ac i ddarparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

242. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
243. Gan fod Cymuned Llan-faes o fewn ward etholiadol Llanilltud Fawr ar hyn o bryd, y mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau iddi'n gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried y newidiadau canlyniadol i Lanilltud Fawr ar dudalen 43. Gan fod Cymuned Llan-fair o fewn ward etholiadol y Bont-faen ar hyn o bryd, y mae'r Comisiwn wedi argymhell newidiadau iddi'n gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r


ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

Comisiwn wedi ystyried y newidiadau canlyniadol i'r Bont-faen ar dudalen 50. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Llandŵ yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Tregolwyn a Llanganna, y cyfeirir ati ar dudalen 127, a Chymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes.

244. Gellir gweld trefniadau arfaethedig y Comisiwn ar gyfer wardiau etholiadol isod:


Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Llandŵ	1,731	1	1,731	-10%	2,595	1	2,595	16%
	1,731	1	1,933		2,595	1	1,800	

Cymuned Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes



(H) Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Ardal Llan-faes i Drebefered



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

TREGOLWYN A LLANGANNA

245. Mae cyngor cymuned presennol Tregolwyn yn cynnwys cyfanswm o 500 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned.

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Tregolwyn	500	7
Cyfanswm	500	7

246. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Llanganna yn cynnwys 2 ward: Llanganna ac Eglwys Fair y Mynydd. Mae gan y gymuned gyfanswm o 637 o etholwyr a gynrychiolir gan 9 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Llanganna	487	6
Eglwys Fair y Mynydd	150	3
Cyfanswm	637	9

Cynrychiolaethau

247. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Tregolwyn a Llanganna gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG). Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
248. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Tregolwyn a Llanganna gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Tregolwyn a Chyngor Cymuned Llanganna. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

249. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 1 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys creu cymuned newydd:
- Creu cymuned newydd a adwaenir fel Tregolwyn a Llanganna
250. Mae'r Comisiwn yn argymhell diddymu cymunedau Tregolwyn a Llanganna a defnyddio'r 2 ardal i ffurfio Cymuned newydd Tregolwyn a Llanganna. Mae hyn yn golygu creu cymuned newydd sy'n cynnwys 2 gymuned wledig gymdogol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio ffin gymunedol bresennol Tregolwyn a ffiniau wardiau cymunedol Llanganna ac Eglwys Fair y Mynydd i greu wardiau cymunedol yn y gymuned argymelledig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn erbyn y cynigion. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn fodlon bod y cynigion yn gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cyd-fynd â'r Polisi Maint y Cyngor a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 127.
251. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai 1,137 o etholwyr yng Nghymuned newydd Tregolwyn a Llanganna.
252. Byddai ward gymunedol newydd Tregolwyn yn cynnwys 500 o etholwyr. Byddai ward gymunedol newydd Llanganna yn cynnwys 487 o etholwyr. Byddai ward gymunedol newydd Eglwys Fair y Mynydd yn cynnwys 150 o etholwyr.

Enwau Argymelledig

253. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **Colwinston and Llangan** ar gyfer y gymuned, fel cyfuniad o'r enwau Saesneg presennol a ragnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021, a'r enw Cymraeg **Tregolwyn a Llanganna** fel cyfuniad o'r enwau Cymraeg presennol a ragnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021, ac yn argymell defnyddio'r ffurf Llanganna fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, a ddywedodd mai Llanganna oedd y ffurf gywir ar enw'r ardal, yn ogystal â'r pentref o'r un enw.
254. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg **Colwinston** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Tregolwyn** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
255. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell yr enw Saesneg **Llangan** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Llanganna** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ac a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
256. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **St Mary Hill** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Eglwys Fair y Mynydd** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol**Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned**

257. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng Nghymuned newydd Tregolwyn a Llanganna yn cynnwys 3 ward: Tregolwyn, Llanganna, ac Eglwys Fair y Mynydd. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 1,137 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned.
258. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cynghorau cymuned isod:

Cyngor Cymuned Tregolwyn a Llanganna (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr	Amrywia	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr	Amrywia
	r	Cymuned	fesul Cynghoryd d	nt (CC)		Cymuned	fesul Cynghoryd d	nt (CC)
Tregolwyn	500	7	71	0%	500	3	167	3%
Llanganna	487	6	81	14%	487	3	162	0%
Eglwys Fair y Mynydd	150	3	50	-30%	150	1	150	-8%
	1,137	16	71		1,137	7	162	


Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Tregolwyn a Llanganna yr hawl i 7 cynghorydd cymuned, sef yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i argymell.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

259. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
260. Mae'r Comisiwn wedi ystyried y newidiadau i ward etholiadol Llandŵ ar dudalen 122 ac yn argymhell bod ward etholiadol Llandŵ yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Tregolwyn a Llanganna a Chymuned newydd Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes.

Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Llandŵ	1,731	1	1,731	-10%	2,595	1	2,595	44%
	1,731	1	1,933		2,595	1	1,800	

Cymuned Tregolwyn a Llanganna



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

EWENNI A SAINT-Y-BRID

261. Mae cyngor cymuned presennol Ewenni yn cynnwys cyfanswm o 623 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned.

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Ewenni	623	8
Cyfanswm	623	8

262. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Saint-y-brid yn cynnwys 2 ward: Aberogwr, Saint-y-brid. Mae gan y gymuned gyfanswm o 1,984 o etholwyr a gynrychiolir gan 11 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Aberogwr	1,143	5
Saint-y-brid	841	6
Cyfanswm	1,984	11

Cynrychiolaethau

263. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Ewenni a Saint-y-brid gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), a Chyngor Cymuned Ewenni. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
264. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 9 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Ewenni a Saint-y-brid gan: VOGCPWG, Aelod Seneddol, Cyngor Cymuned Ewenni, 2 Gynghorydd Cymuned (Ewenni), a 4 o breswylwyr Ewenni. Roedd cynrychiolaeth Cyngor Cymuned Ewenni hefyd yn cynnwys deiseb â 134 o lofnodion. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

265. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 1 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys creu cymuned newydd:
- Creu cymuned newydd a adwaenir fel Ewenni a Saint-y-brid
266. Mae'r Comisiwn yn argymhell diddymu cymunedau Ewenni a Saint-y-brid a defnyddio'r 2 ardal i ffurfio Cymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid. Mae hyn yn golygu creu cymuned newydd sy'n cynnwys 2 gymuned wledig gymdogol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol i gyfuno Ewenni â chymuned wledig gymdogol Saint-y-brid. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio ffin gymunedol bresennol Ewenni a ffiniau wardiau cymunedol Aberogwr a Saint-y-brid i greu wardiau cymunedol yn y gymuned newydd. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn erbyn y cynigion. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn fodlon bod y cynigion yn gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cyd-fynd â'r Polisi Maint y Cyngor a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 131.
267. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai 2,607 o etholwyr yng Nghymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid.
268. Byddai gan ward gymunedol newydd Ewenni 623 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Aberogwr 1,143 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Saint-y-brid 841 o etholwyr.

Enwau Argymelledig

269. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **Eweny and St Bride's Major** ar gyfer y gymuned, a'r enw Cymraeg **Eweni a Saint-y-brid** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
270. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Eweny** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Eweni** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
271. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **St Bride's Major** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Saint-y-brid** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
272. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Ogmore-by-Sea** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg **Aberogwr** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol**Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned**

273. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng Nghymuned newydd Eweni a Saint-y-brid yn cynnwys 3 ward: Eweni, Aberogwr, a Saint-y-brid. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 2,607 o etholwyr a gynrychiolir gan 13 o gynghorwyr cymuned.
274. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cynghorau cymuned isod:

Cyngor Cymuned Eweni a Saint-y-brid (Gwledig)								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr	Amrywia	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr	Amrywia
	r	Cymuned	fesul Cynghoryd d	nt (CC)		Cymuned	fesul Cynghoryd d	nt (CC)
Eweni	623	8	78	-43%	623	3	208	4%
Aberogwr	1,143	5	229	67%	1,143	6	191	-5%
Saint-y-brid	841	6	140	2%	841	4	210	5%
	2,607	19			2,607	13	201	

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Eweni a Saint-y-brid yr hawl i 17 o gynghorwyr cymuned a fyddai'n gwella'r amrywiant ar draws y sir. Fodd bynnag, er mwyn darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn unol â'r amrywiant ar draws yr ardal gymunedol argymelledig, mae'r Comisiwn wedi argymell bod Cymuned Eweni a Saint-y-brid yn cael ei chynrychioli gan 13 o gynghorwyr cymuned i ddarparu lefelau derbyniol o amrywiant.


Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

275. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.

276. Gan fod Cymunedau Ewenni a Saint-y-brid o fewn ward etholiadol Saint-y-brid ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Saint-y-brid yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid a Chymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig a ystyrir ar dudalen 135.

Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Saint-y-brid	3,745	2	1,873	-3%	3,745	2	1,873	4%
	3,745	2	1,933		3,745	2	1,800	

Cymuned Ewenni a Saint-y-brid



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

SAIN DUNWYD A'R WIG

277. Mae'r trefniadau cyngor cymuned presennol yn Sain Dunwyd yn cynnwys 3 ward: Marcroes, yr As Fawr, a Sain Dunwyd. Mae gan y gymuned gyfanswm o 338 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 cynghorydd cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Marcroes	107	3
Yr As Fawr	39	1
Sain Dunwyd	192	4
Cyfanswm	338	8

278. Mae cyngor cymuned presennol y Wig yn cynnwys cyfanswm o 800 o etholwyr a gynrychiolir gan 7 cynghorydd cymuned.

Cymuned	Etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Y Wig	800	7
Cyfanswm	800	7

Cynrychiolaethau

279. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Sain Dunwyd, a'r Wig gan: Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg (VOGCPWG), Cyngor Cymuned Sain Dunwyd, a Chyngor Cymuned y Wig. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).
280. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn ymwneud â Chymunedau Sain Dunwyd a'r Wig gan: VOGCPWG, Cyngor Cymuned Sain Dunwyd, Cyngor Cymuned y Wig ac un o breswylwyr Sain Dunwyd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Comisiwn](#).

Argymhellion ffiniau wardiau cymunedol

281. Mae'r Comisiwn yn argymhell gwneud 1 newid i ffiniau presennol cymunedau, sy'n cynnwys creu cymuned newydd:
- Creu cymuned newydd a adwaenir fel Sain Dunwyd a'r Wig
282. Mae'r Comisiwn yn argymhell diddymu cymunedau Sain Dunwyd a'r Wig a defnyddio'r 2 ardal i ffurfio Cymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig. Mae hyn yn golygu creu cymuned newydd sy'n cynnwys 2 gymuned wledig gymdogol. Cyflwynwyd yr argymhelliad gan VOGCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr argymhelliad hwn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn yn argymhell defnyddio ffiniau wardiau cymunedol presennol Marcroes, yr As Fawr a Sain Dunwyd a ffiniau cymunedol y Wig i greu wardiau cymunedol yn y gymuned newydd. Gellir gweld yr argymhelliad ar y map ar dudalen 135.
283. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, byddai 1,138 o etholwyr yng Nghymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig.
284. Byddai gan ward gymunedol newydd Marcroes 107 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd yr As Fawr 39 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd Sain Dunwyd 192 o etholwyr. Byddai gan ward gymunedol newydd y Wig 800 o etholwyr.

Enwau Argymelledig

285. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **St Donats and Wick** ar gyfer y gymuned a'r enw Cymraeg **Sain Dunwyd a'r Wig** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
286. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **St Donats** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Sain Dunwyd** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
287. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Wick** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Y Wig** fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021.
288. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Marcross** ar gyfer y ward gymunedol, ac yn argymell yr enw Cymraeg **Marcroes** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
289. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Monknash** ar gyfer y ward gymunedol a'r enw Cymraeg **Yr As Fawr** fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Newidiadau Canlyniadol**Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned**

290. Byddai'r trefniadau cyngor cymuned argymelledig yng Nghymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig yn cynnwys 4 ward: Marcroes, yr As Fawr, Sain Dunwyd, a'r Wig. Argymhellir bod y gymuned yn cynnwys cyfanswm o 1,138 o etholwyr a gynrychiolir gan 9 cynghorydd cymuned.
291. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymell trefniadau etholiadol ar gyfer y cyngor cymuned newydd a fyddai'n cael ei greu yn dilyn yr argymhellion hyn. Gellir gweld trefniadau etholiadol argymelledig y Comisiwn ar gyfer y cynghorau cymuned isod:

Cyngor Cymuned Sain Dunwyd a'r Wig (Gwledig)								
Presennol					Argymelledig			
Wardiau	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)	Etholwyr	Cynghorwyr Cymuned	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad (CC)
Marcroes	107	3	36	-53%	107	1	107	-15%
Yr As Fawr	39	1	39	-49%	39	1	39	-69%
Sain Dunwyd	192	4	48	-37%	192	2	96	-24%
Y Wig	800	7	114	50%	800	5	160	27%
	1,138	15	76		1,138	9	126	


Mae'r Comisiwn yn nodi bod y polisi maint y Cyngor a gyflwynwyd gan VOGCPWG yn golygu y byddai gan Gymuned Sain Dunwyd a'r Wig yr hawl i 8 cynghorydd cymuned a fyddai'n gwella'r amrywiad ar draws y sir. Fodd bynnag, er mwyn darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, mae'r Comisiwn wedi argymell bod Cymuned Sain Dunwyd a'r Wig yn cael ei chynrychioli gan 9 cynghorydd cymuned i ddarparu lefelau derbyniol o amrywiad ar draws ardal y gymuned.

Trefniadau wardiau etholiadol y prif gyngor

292. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.
293. Gan fod Cymunedau Sain Dunwyd a'r Wig o fewn ward etholiadol Saint-y-brid ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward etholiadol Saint-y-brid yn cael ei ffurfio o Gymuned newydd Ewenni a Saint-y-brid, a ystyrir ar dudalen 131, a Chymuned newydd Sain Dunwyd a'r Wig.

Newidiadau Canlyniadol i Drefniadau Wardiau Etholiadol								
Wardiau	Presennol				Argymelledig			
	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad	Etholwyr	Cynghorwyr	Etholwyr fesul Cynghorydd	Amrywiad
Saint-y-brid	3,745	2	1,873	-3%	3,745	2	1,873	4%
	3,745	2	1,933		3,745	2	1,800	

Cymuned Llanddunwyd a'r Wig



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2024] OS [100047875]

Pennod 4. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Ar ôl cwblhau'r arolwg o ardal y prif gyngor a chyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r trefniadau cymunedol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn y dyfodol, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.
2. Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol, os gwêl yn dda, am weithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd neu gydag addasiadau. Gallai Llywodraeth Cymru benderfynu peidio â gweithredu, hefyd.
3. Dylai unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r materion yn yr adroddiad hwn gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, heb fod yn hwyrach na 6 wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

Y Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu drwy anfon neges e-bost at:

LGPolicy.Correspondence@gov.wales

4. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r broses arolygu, gweler tudalen we'r Comisiwn: www.ldbc.gov.uk

Pennod 5. CYDNABYDDIAETHAU

1. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, yr holl gynghorau cymuned a thref a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant a wnaeth gynrychiolaethau i ni yn ystod y broses o ddatblygu'r argymhellion terfynol hyn. Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cymeradwyo'r adroddiad argymhellion hwn.



BEVERLEY SMITH (Cadeirydd)



MICHAEL IMPERATO (Dirprwy Gadeirydd)



DIANE BEVAN (Aelod)



FRANK CUTHBERT (Aelod)



GINGER WIEGAND (Aelod)



SHEREEN WILLIAMS MBE OStJ (Prif Weithredwr)

Mehefin 2024

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
TREFNIADAU ETHOLIADOL CYMUNEDOL PRESENOL

Rhif.	ENW'R GYMUNED	DISGRIFIAD	Nifer y Cyngorwyr	Etholwyr 2023	Cymhareb 2023	% amrywiaeth o'r cyfartaledd sirol presenol	Etholwyr 2028	Cymhareb 2028	% amrywiaeth o'r cyfartaledd sirol arwmlleddig
									Atodiad 1
1	Tref y Barri	Wardiau Trefol Baruc (7,044), [6,635], Buttrills (4,601), [4,574], Cadog (7,512), [7,355], Castleland (3,488), [4,142], Court (3,510), [3,465], Dyfan (4,232), [4,137], Gibbonsdown (3,968), [4,132] ac llltud [6,372], [6,174]	22	40,727	1,851	377%	40,614	1,846	370%
2	Tregolwyn	Cymuned Tregolwyn (500), [476]	7	500	71	-82%	476	68	-83%
3	Y Bont-faen gyda Llanfleidfan	Wardiau Trefol Aberthin (370), [349], Y Bont-faen (1,190), [1,193], Llanfleidfan Dwrain (1,053), [1,165] a Llanfleidfan Gorllewin (1,133), [1,168]	15	3,746	250	-36%	3,875	258	-34%
4	Dinas Powys	Wardiau Cymunedol Cross Common (2,395), [2,348], Eastbrook (1,322), [1,264], Murch (1,379), [1,337] a Thwyn (1,423), [1,361]	16	6,519	407	5%	6,310	394	0%
5	Ewenni	Cymuned Ewenni (623), [592]	8	623	78	-80%	592	74	-81%
6	Llancafan	Wardiau Cymunedol Llancafan (463), [443] a Llantrithyd (177), [171]	10	640	64	-84%	614	61	-84%
7	Llandochoau	Cymuned Llandochoau (1,642), [1,808]	10	1,642	164	-58%	1,808	181	-54%
8	Llandŵ	Wardiau Cymunedol Llandŵ (234), [221], Llanmihangel (130), [127] a Llysorney (230), [221]	10	594	59	-85%	569	57	-86%
9	Llanfair	Wardiau Cymunedol Llanfair (320), [310] a St. Hilary (195), [183]	8	515	64	-83%	493	62	-84%
10	Llangan	Wardiau Cymunedol Llangan (487), [465] a St. Mary Hill (150), [145]	9	637	71	-82%	610	68	-83%
11	Llan-maes	Cymuned Llan-maes (354), [610]	7	354	51	-87%	610	87	-78%
12	Tref Llanilltud Fawr	Wardiau Trefol Boverton (2,331), [2,357], Gogledd (2,801), [2,731], De-ddwyrain (1,547), [1,495] a Gorllewin (1,061), [1,035]	14	7,740	553	42%	7,618	544	39%
13	Llanfhangely-y-Pwll a Lecwydd	Wardiau Cymunedol Lecwydd (75), [73] a Llanfhangely-y-Pwll (203), [190]	7	278	40	-90%	263	38	-90%
14	Tref Penarth	Wardiau Trefol Cornerswell (4,119), [4,035], Plymouth (4,677), [4,532], St Augustine's (5,506), [5,395] a Stanwell (3,464), [3,661]	16	17,766	1,110	186%	17,623	1,101	181%
15	Pendeulwyn	Cymuned Pendeulwyn (432), [447]	8	432	54	-86%	447	56	-86%
16	Pen-llin	Wardiau Cymunedol Llan-sannor (158), [153], Pen-llin (510), [985] ac Ystradowen (726), [702]	11	1,394	127	-67%	1,840	167	-57%
17	Llanbedr-y-fro	Cymuned Llanbedr-y-fro (722), [702]	8	722	90	-77%	702	88	-78%
18	Y Rhws	Cymuned y Rhws (5,516), [5,524]	-	5,516	N/A	N/A	5,524	N/A	N/A
19	Sain Tathan	Wardiau Cymunedol Flemingston (1,395), [1,929], Gileston (144), [199] a Sain Tathan (1,453), [1,520]	12	2,992	249	-36%	3,647	304	-23%
20	Saint-y-brid	Wardiau Cymunedol Aberogwr (1,143), [1,118] a Saint-y-brid (841), [843]	11	1,984	180	-54%	1,961	178	-55%
21	Sain Dunwyd	Wardiau Cymunedol Marcross (107), [107], Monkash (39), [35] a Sain Dunwyd (192), [168]	8	338	42	-89%	310	39	-90%
22	Sain Siorys	Wardiau Cymunedol Llan-safra-ar-Elai (100), [96] a Sain Siorys (237), [232]	7	337	48	-88%	328	47	-88%
23	Sain Nicholas a Thresimwn	Wardiau Cymunedol Tresimwn (396), [519] a Sain Nicolas (512), [496]	10	908	91	-77%	1,015	102	-74%
24	Sili a Larnog	Wardiau Cymunedol Larnog (790), [860] a Sili (3,162), [3,433]	9	3,952	439	13%	4,293	477	22%
25	Llanddunwyd	Cymuned Llanddunwyd (455), [430]	8	455	57	-85%	430	54	-86%
26	Gwenfô	Wardiau Cymunedol St. Llythans (592), [557] a Gwenfô (1,684), [1,634]	11	2,276	207	-47%	2,191	199	-49%
27	Wig	Cymuned Wig (800), [801]	7	800	114	-71%	801	114	-71%
CYFANSYMAU:			269	104,387	388		105,564	392	

Cymhareb yr nifer yr etholwyr fesul cyngorydd

Darperir ystadegau etholiadol gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn gywir at Rhagfyr 2022

Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol									
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol									
Rhwng + neu - 10% a + neu - 25% o'r Cyfartaledd Sirol									
Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol									
	2023	2028							
	20	74%	20	74%					
	4	15%	3	11%					
	1	4%	2	7%					
	1	4%	1	4%					

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
TREFNIADAU ETHOLIADOL CYMUNEDOL ARFAETHEDIG

Rhif.	ENW'R GYMUNED	DISGRIFIAD	Nifer y Cyngorwyr	Etholwyr 2023	Cymhareb 2023	% amrywiaeth o'r cyfartaledd sirol presenol
1	Tref y Barri	Wardiau Trefol Baruc, Buttrills, Cadog, Casteland, Court, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud a Glannau'r Barri	23	40,727	1,771	251%
2	Tregolwyn a Llanganna	Wardiau Cymunedol Tregolwyn, Llan-gan a St Mary Hill	7	1,137	162	-68%
3	Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a Llanfair	Wardiau Trefol Aberthrin, Canol y Bont-faen, Gogledd y Bont-faen, a Llanfleiddan	15	3,762	251	-50%
4	Dinas Powys	Wardiau Cymunedol Cross Common, Eastbrook, Murch, a Twyn	16	6,535	408	-19%
5	Ewenni a Saint-y-brid	Wardiau Cymunedol Ewenni, Aberogwr a Saint-y-brid	13	2,607	201	-60%
6	Llancarfan	Wardiau Cymunedol Llancarfan a Llantriddyd	7	608	87	-83%
7	Llandochoau a Chwrtyrala	Wardiau Cymunedol Llandochoau, Llanfihangel-y-Pwll a Lecwydd	8	1,834	229	-55%
8	Llandŵr, Llan-fair a Llan-faes	Wardiau Cymunedol Llandŵr, Llanfihangel, Llysworney a Llan-faes	13	1,458	112	-78%
9	Tref Llanilltud Fawr	Wardiau Trefol Treberefed, Gogledd, De-ddwyrain a Gorllewin	15	7,745	516	2%
10	Tref Penarth	Wardiau Trefol Cornerswell, St Augustine's, Stanwell, Plymouth a Cosmeston	17	18,529	1,090	116%
11	Pendeulwyn a Llanddunwyd	Wardiau Cymuned Pendeulwyn a Llanddunwyd	8	838	105	-79%
12	Pen-llin	Wardiau Cymunedol Llansannor, Pen-llin ac Ystradowen	9	1,401	156	-69%
13	Llanbedr-y-fro a Sain Siorys	Wardiau Cymunedol Llanbedr-y-fro, Sain Siorys a Llansantffraid-ar-Elai	7	957	137	-73%
14	Y Rhws	Cymuned y Rhws	-	5,516	N/A	N/A
15	Sain Tathan	Wardiau Cymunedol Flemingston, Gileston a Sain Tathan	12	2,992	249	-51%
16	Sain Dunwyd a'r Wig	Wardiau Cymunedol Macroes, Monkash, Sain Dunwyd a Wig	9	1,138	126	-75%
17	Sain Nicholas a Thresimwn	Wardiau Cymunedol Sain Nicolas, Tresimwn a Dyffryn	11	1,201	109	-78%
18	Sili a Larnog	Wardiau Cymunedol Sili a Larnog	7	3,259	466	-8%
19	Gwentfô	Wardiau Cymunedol Parc Gwentfô a Gwentfô	10	2,144	214	-57%
CYFANSYMAU:			207	104,388	504	

Cymhareb yr nifer yr etholwyr fesul cyngorydd

Darpenr ystadegau etholiadol gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn gywir at Rhagfyr 2022

	2023	14	127%
Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol		2	14%
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol		1	7%
Rhwng + neu - 10% a + neu - 25% o'r Cyfartaledd Sirol		2	14%
Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol			

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
AELODAETH CYNGOR SIR ARFAETHEDIG

Rhif.	ENW	DISGRIFIAD	Nfery CYNGHORWYR (Arfaethedig)	ETHOLWYR - ARFAETHEDIG	CYMHAREB ARFAETHEDIG	% Amrywiol o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig
1	Baruc	Ward Baruc [4.612] o Dref y Barri	3	4,612	1,537	-15%
2	Buttrills	Ward Buttrills [3.107] o Dref y Barri	2	3,107	1,554	-14%
3	Cadog	Ward Cadog [7.241] o Dref y Barri	4	7,241	1,810	1%
4	Castelod	Ward Castelod [2.829] o Dref y Barri	2	2,829	1,415	-21%
5	Cornerswell	Ward Cornerswell [4.129] o Dref Penarth	2	4,129	2,065	15%
6	Cosmeston	Ward Cosmeston [693] o Dref Penarth	1	693	693	-61%
7	Court	Ward Court [3.846] o Dref y Barri	2	3,846	1,923	7%
8	Y Bont-faen	Tref y Bont-faen gyda Llanfleidfan [3,762] a Cymuned Pen-llin [1,401]	3	5,163	1,721	-4%
9	Dinas Powys	Cymuned Dinas Powys [6,535]	4	6,535	1,634	-9%
10	Dyfan	Ward Dyfan [5,598] o Dref y Barri	3	5,598	1,866	4%
11	Gibbonsdown	The Gibbonsdown [3,886] ward of the Town of Barry	2	3,886	1,943	8%
12	Illtud	Ward Illtud [6,468] o Dref y Barri	3	6,468	2,156	20%
13	Llandochau	Cymuned Llandochau a Chwrtyrall [1,834]	1	1,834	1,834	2%
14	Llandŵ	Cymunedau Tregolwyn a Llan-gan [1,137], Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes [943]	1	2,595	2,595	44%
15	Llanilltud Fawr	Tref Llanilltud Fawr [7,745]	4	7,745	1,936	8%
16	Llanbedr-y-Fro	Cymunedau Pendelwyn a Llanddunwyd [838], a Llanbedr-y-Fro a Sain Siorys [957]	1	1,795	1,795	0%
17	Plymouth	Ward Plymouth [4,699] o Dref Penarth	2	4,699	2,350	31%
18	Y Rhws	Cymuned y Rhws [5,516]	3	5,516	1,839	2%
19	Sain Tathan	Cymuned Sain Tathan [2,992]	2	2,992	1,496	-17%
20	Saint-y-Brid	Cymunedau Ewenni a Saint-y-brid [2,607], a Sain Dunwyd a'r Wig [1,138]	2	3,745	1,873	4%
21	Sain Nicolas a Liancarfan	Cymunedau Liancarfan [608], a Sain Nicolas a Thresimwn [1,201]	1	1,808	1,808	0%
22	St Augustine's	Ward St Augustine's [5,506] o Dref Penarth	3	5,506	1,835	2%
23	Stanwell	Ward Stanwell [3,502] o Dref Penarth	2	3,502	1,751	-3%
24	Sili	Cymuned Sili a Larnog [3,259]	2	3,259	1,630	-9%
25	Gwentfô	Cymuned Gwentfô [2,144]	1	2,144	2,144	19%
26	Glannau'r Barri	Ward Glannau'r Barri [3,140] o Dref y Barri	2	3,140	1,570	-13%
CYFANSWM:				104,387	1,800	

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd
Ffigyrau Etholiadol wedi'u darparu gan Cyngor Bwrdeistrefol Bro Morgannwg

